

Tanllwyth o dân, a chroeso cynhesach

Caffi? Nage, yn bendant.

Bwyty? Ddim cweit.

Ystafelloedd tê? Weeeel, ia, - efallai.

Na, does yr un gair sy'n disgrifio'n hollol beth yn union yw Penceunant Isaf ar y llwybr sy'n arwain o Lanberis i gopa'r Wyddfa. Mae'r bwthyn, sy'n dyddio o'r ddeunawfed ganrif wedi ei adnewyddu i gyd-fynd a safonau angenrheidiol yr oes sydd ohoni, ond heb golli dim o'i nawws. Mae'n llawn dodrefn hynafol, gan gynnwys rhai gwreiddiol i'r bwthyn. Mae ystafell hefyd wedi ei haddasu yn oriel gelf. Y nawws unigryw hwn yw un o'r rhesymau pam fod teithwyr o bob rhan o'r byd sydd wedi ymweld â'r sefydliad hwn yn ei ganmol i'r cymylau. Dyna pam yr enillodd glod diweddar gan gwmni TripAdvisor a'r wobwr fel prif bwyty/ystafelloedd te Cymru; gwobr a enillodd y llynedd hefyd.

Penderfynodd TripAdvisor gynnal y gystadleuaeth eleni i ddathlu gŵyl ein nawddsant, ac ar Fawrth 1af cyhoeddwyd enwau'r ugain uchaf yng Nghymru, ac yr oedd Penceunant Isaf ar frig y rhestr am yr ail flwyddyn yn olynol.

Dyma rai o'r sylwadau a dderbyniodd TripAdvisor yn ystod mis Mawrth eleni: "best tea-room ever", "most charmingly situated café in Europe", "the world's best hot chocolate", "best hospitality ever", "wedi cael bara brith a jangle hyfryd efo Steffan".

Ar sylw olaf, mae'n debyg, sy'n datgelu llwyddiant a phoblogrwydd Penceunant. Ydi, mae'r bara brith, y cacennau cri, y tê, y lemonêd cartref, y siocled poeth, a hyd yn oed rhywbeth fymryn cryfach i'w yfed, yn llwyr haeddu'r ganmoliaeth; ond y croeso gan ŵr y tŷ sy'n coroni pob ymweliad. Mae Steffan yn ei elfen yn sgwrsio, a'r sgwrs yn tynnu'r gwahanol gwsmeriaid at ei gilydd, waeth beth fo'u cefndir.

Oes, mae angen gŵr busnes craff i gynnal y fath sefydliad, ond mae Steffan yn ŵr busnes hael hefyd, ac yn cyfrannu symiau sylweddol o arian i goffrau'r Tim Achub Mynydd lleol. Ac y mae'r "Eco" yn falch o gael cyhoeddi cynnig hael arall o'i eiddo. Am flwyddyn gyfan mae Steffan yn cynnig paned a chacen AM DDIM i bob person dros 85 mlwydd oed sy'n byw yn nalgylch "Eco'r Wyddfa". Mae'r cynnig yn agored ar bob diwrnod o'r wythnos ar wahân i Sadwrn a Sul, gwyliau ysgol a gwyliau Banc. Ac y mae'r caffi ar agor o fore gwyn tan nos!



DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015

Rhifyn
Mai

Copi i law
Ebrill 19

Bwndelu
Mai 1

Ble
Deiniolen

RHIF 431

Ebrill 2015

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Swn yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid
dylunio graffeg
07766956673

LLYTHYRAU

Eithinog,, 14 Afon Rhos,
Llanrug

Rwy'n ceisio canfod disgynyddion i Ishmael Davies, gynt o Lanberis, a fu farw yn 1925. Rwy'n deall fod ganddo wyth o blant a bu nifer ohonynt yn byw yn y pentref. Buaswn yn falch o gael unrhyw wybodaeth am y teulu.

Goronwy Hughes
(01286-674839 neu ebost goronwy@lineone.net)

Annwyl Olygydd,

Yn eich rhifyn diwethaf o Eco'r Wyddfa mae cyfeiriad at y ddeiseb yn gwrthwynebu toriadau i Ysgolion Gwynedd. Mae cwestiwn yn cael ei ofyn "Os rhaid ymhelaethu?". Credaf ei fod yn briodol i mi ymhelaethu ar y mater yma er mwyn cyfleu'r darlun cyfan i'ch darllenwyr ac esbonio pam bod twll ariannol o £50 miliwn yn ein hwynebu.

Mae Llywodraeth y Glymblaid yn San Steffan, gyda'u polisïau llymder, wedi torri yn sylweddol ar yr arian mae Cymru yn ei dderbyn. Mae Llywodraeth Lafur Caerdydd, yn ei dro, wedi penderfynu cefnogi'r Gwasanaeth Iechyd ar draul Llywodraeth Leol. Oherwydd y penderfyniadau yma mae Cyngor Gwynedd yn wynebu diffyg yn ein cyllideb o £50 miliwn.

Rydym fel Cyngor wedi bod yn amddiffyn y gyllideb Addysg ers rhai blynedd gan ofyn i adrannau eraill ysgwyddo arbedion effeithlonrwydd. Gan fod y gyllideb Addysg yn £89 Miliwn o bunnoedd yn flynyddol, sef 38% o holl wariant y Cyngor, a chan bod y toriadau diweddar yn hollol ddigynsail rydym wedi gosod targed i Addysg arbed 6% sef £4.3 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Ar gyfartaledd mae gofyn i adrannau eraill y Cyngor dorri 25% o'u cyllidebau ac os na fyddem yn gofyn i Addysg ysgwyddo rhywfaint o'r baich fyddai'n golygu torri mwy ar wasanaethau i'n trigolion mwyaf bregus (henoed a gwasanaethau plant). Mae nifer o gynghorwyr Gwynedd wedi mynychu gweithdai ar strategaeth ariannol y Cyngor yn ddiweddar ac yn sgil hynny cymeradwywyd cyllideb flwyddyn nesaf gan fwyafrif llethol o aelodau'r Cyngor yng nghyfarfod diwethaf o'r Cyngor Llawn.

Yn amlwg 'does neb eisïau gweld toriadau i'n gwasanaethau ond rhaid i ni weithio o fewn y gyllideb sy'n cael ei dderbyn a'r twll ariannol o £50 miliwn. Fe fydd penderfyniadau anodd iawn i'w cymryd yn y blynedd nesaf ond credwn mewn bod yn hollol agored ac fe fyddwn yn cynnal trafodaeth agored gyda thrigolion Gwynedd dros y misoedd nesaf.

Yn gywir,

Gareth Thomas

Aelod Cabinet Addysg, Cyngor Gwynedd

DIOLCHIADAU

Dymuna Gwion Dafydd Williams a'r teulu ddiolch o waelod calon am bob cymorth a gafwyd gan ffrindiau, cymdogion a thrigolion ardal yr Eco a thu hwnt yn dilyn ei ddamwain ar Fedi 3 llynedd. Diolch am yr holl ymweliadau, y llythyrau, cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch am y rhoddion ariannol gan unigolion, cymdeithasau, eglwysi a chlybiau pêl-droed. Diolch arbennig i'r rhai hynny a drefnodd y gêm bêl-droed rhwng Llanberis a Llanrug a'i gyd-chwaraewyr a gymerodd ran; hefyd i'r rhai a drefnodd Gig Gwion yn Y Bedol a'r rhai a gymerodd ran, ac yn naturiol, diolch i'r rhai a fu'n bresennol yn y ddau achlysur ac a gyfrannodd yn eithriadol o hael. Diolch neilltuol i'w "fêts" a fu mor driw iddo ac a ymwelodd â'r ysbytai pell o leiaf unwaith yr wythnos. Erbyn hyn y mae Gwion adre ym Methel ar ôl hanner-blwyddyn mewn ysbytai yn Newcastle ger Stoke ac yn Clatterbridge, ac mae ei ddiolch yn enfawr iawn i'r meddygon a'r holl staff yn y ddau safle.

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan
Llywodraeth Cymru

£100: Di-enw

£50: Er cof am Geraint, Hafodty, Gwaun Cwm Brwynog.

£20: Mair Owen, Caerdydd er cof am Gwynnaf Owen.

£19: Robert Elwyn Williams, Cranleigh.

£15: Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen.

£10: Er cof am Blodwen Pritchard, Penisarwaun; Ernest a Margaret, Hafan, Porth Gogledd, Deiniolen; Ronnie Williams, Leicester; Ann Rhys William, Croesoswallt; Rhianwen Griffith, Y Drenewydd; Eric a Liz 17 Bryntirion, Penisarwaun er cof am John Edwin Jones; Eluned Jones, Mochdre er cof am Bob a Hetty Hughes gynt o 7 Stryd Siarlot, Llanberis.

£9: Di-enw; Gwerfyl McCarthy, Childwall; A. Sidebotham, Whaley Bridge.

£7: Iola Evans, Stryd Fawr, Llanberis

£5: Kathryn Jones Y Ddolwen, Bethel; Marina Williams, Didfa, Llanrug; Marian Williams, 18 T? Hen, Waunfawr; Bessie Williams, Llanfairpwll; Alan Pritchard, 6 Dolafon, Cwmyglo; Geraint Hughes Roberts, Bangor; Owen Jones, Llangefni; Linda Carling, Llanberis.

£4: Mrs N. Lovatt, Aberystwyth.

Pris yr "Eco".

Fe sylwch fod pris yr "Eco" wedi codi i 70 ceiniog y rhifyn o'r mis hwn. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn yn y Cyfarfod Blyneddol y llynedd. (Os nad oeddech yn bresennol, peidiwch a chwyno!) Ond o dalu ymlaen llaw, cewch unarddeg o rifynnau am £7 (hynny yw: un rhifyn am ddim). Ac mae'n parhau'n fargen: 32 o dudalennau amrywiol bob mis ac wyth ohonynt mewn lliw. Pris drwy'r post ym Mhrydain: £21.00 am flwyddyn. Pris ar e-bost: £7.70 am flwyddyn.

Yn ystod y mis a aeth heibio

• Aeth y gwaith ar uwchraddio'r ffordd o Dwnnel Pen-llyn i Lanberis rhagddo, ac fe ddylai'r gwaith gael ei gwblhau erbyn gwyliu'r Pasg. Mae gwariant sylweddol wedi bod ar y rhan hon o'r ffordd dros y misoedd diwethaf, gan gynnwys adeiladu wal gerrig ar hyd un ochr i'r ffordd, gosod cyrbiau, lliniaru effaith dŵr gorlif, ail-balmantu ac i orffen, rhoi wyneb newydd i'r ffordd. Tipyn o gost!

• Ond bydd y gost yn ymddangos yn bitw iawn o'i chymharu â'r gwariant sy'n cael ei ragweld ar gyfer ffordd osgoi Bontnewydd/Caernarfon. Eisoes bu dynion y cotiau melyn yn mesur tir ar draws y caeau yn yr ardal rhwng Caeathro, Cibyn ac ar draws am Ffordd Bethel. Fel roedd yr "Eco" yn cael ei baratoi i'r Wasg, roedd cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal (gan gynnwys un yng Nghaeathro) i ddangos llwybr arfaethedig y ffordd newydd. Mae'r protestio'n parhau – am y llwybr a ddewiswyd, am y gost (a'r amcangyfrif diweddaraf yn dyblu'r gost wreiddiol), am yr effaith ar dir amaethyddol, ond yn enwedig yr effaith ar bentref Caeathro.

• Mewn arolwg a gynhaliwyd gan bapur y Sunday Times, dewiswyd yr hanner cant lle gwledig gorau i fyw ynddynt ym Mhrydain. Doedd unman o fro'r "Eco" ar y rhestr. Penderfynwyd ar y canlyniadau yn ôl gwahanol ffactorau megis prisiau tai, ysgolion, diogelwch rhag trosedd, trafniadaeth gyhoeddus, safon y tafarndai a'r bwytai lleol ac yn y blaen. Aberaeron yng Ngheredigion ddaeth i'r brig, gydag Aberdyfi yn ail. A'r rhesymau dros ddewis Aberdyfi? Chwaraeon dŵr, traethau hyfryd a bythynnod pysgotwyr! Dim son am waith i gynnal teuluoedd. Ond wrth gwrs, mae darllen un arall o'r 'rhesymau' yn egluro'r cwbl: "a popular spot for second-homers and retirees." Diolch i'r drefn nad oedd unman o fro'r "Eco" ar y rhestr.

• Pryd cafwyd ymweliad brenhinol â'r fro ddiwethaf? Darllenwch hanes yr un diweddaraf ar dudalen..., ac am unwaith, digon tawedog fu'r cyfryngau amdano.

• Sefydlwyd grŵp yn galw ei hun yn "Concerned about Glynrhonwy?", a chynhaliwyd cyfarfod protest ganddynt yn y Lagŵns, Llanberis. Mae'n ymddangos eu bod braidd yn hwyr yn dangos eu consym. Gwnaethpwyd y cais gwreiddiol rai blynyddoedd yn ôl – ac fe'i caniatwyd. Y cyfan a wna'r cais diweddaraf yw dyblu maint y cynnyrch. Does dim newid allanol o gwbl. Wrth gwrs y bydd anhwylostod yn cael ei greu yn ystod y gwaith adeiladu, ond bydd trigolion Waunfawr yn dioddef mwy na thrigolion ac ymwelwyr Llanberis. Dros dro yn unig y bydd yr anhwylostod, ac yna rhagwelir flynyddoedd o gynhyrchu pŵer trydan fydd yn lân ac yn ddiogel. Codi bwganod yw'r term Cymraeg am 'scaremongering'. Onid rhywbeth nad yw'n bodoli yw bwgan? Felly, pam ei ofni?

• Ar noson rhoi "Eco" y mis hwn yn ei wely roedd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Neuadd Bethel i wyntyllu'r syniad o ffurfio Cyngor Cymuned annibynnol ar gyfer ardal Bethel a Seion. Hynny yw, torri'n rhydd oddi wrth weddill Cyngor Llanddeiniolen. Mwy am y cyfarfod a barn trigolion y plwyf yn y rhifyn nesaf.

Diolch, ffarwelio a chroesawu



Rhifyn Chwefror oedd rhifyn olaf o'r Eco i Eifion Roberts fod yn gyfrifol am yr hysbysebion. Mae Swyddogion yr Eco yn diolch o galon i Eifion am ei wasanaeth dros yr wyth mlynedd diwethaf.

Bu Eifion yn gweithio yn Shotton, Sir Fflint, am flynyddoedd cyn dod adref i Lanberis yn 1984 a sefydlu Becws Eryri. Yn 2007 daeth yn drefnydd hysbysebion yr Eco, gwaith mae wedi ei wneud yn effeithiol a chydwybodol ers hynny.

Pleser ydi cael cyhoeddi fod Rhian George o Frynrefail wedi gwirfoddoli i ymgymryd â'r swydd i ddilyn Eifion. Mae Rhian wedi graddio mewn Cymraeg a Chymdeithaseg ac wedi cwblhau gradd MA mewn Llenyddiaeth Gymraeg yn 2013. Roedd yn gweithio yn Palas Print tra yn y Coleg ac mae'n gweithio yn llawn amser yno ers 2013.

Diolch hefyd i Emerson Hughes, cefnder Eifion sydd wedi dylunio'r hysbysebion, am ei wasanaeth dros y blynyddoedd ac mae wedi cytuno i barhau ei wasanaeth efo Rhian.

Diolch o galon i'r tri am eu gwasanaeth i'r Eco, gan obeithio y bydd dyfodiad Rhian i'r tîm yn ddechrau ar gyfnod newydd o do ieuengach yn nhîm yr Eco.



Safon lluniau i'r "Eco".



Mae llun da yn adrodd stori yn well na mil o eiriau, ond mae llun sal yn difetha'r stori. Oherwydd safon lluniau bu'n rhaid ail-wampio un o'r tudalennau yn y rhifyn diwethaf ar y funud olaf. Mae hynny'n creu trafferthion i'r Wasg heb son am swyddogion y papur.

Oherwydd y datblygiadau diweddar mae rwan yn bosibl

tynnu llun gyda ffôn symudol, tabled i-pad a chamera. Ar sgrin y ffôn, yr i-pad neu o'u trosglwyddo i sgrin cyfrifiadur mae'r lluniau yn edrych yn dda iawn, OND, nid yw hynny, o reidrwydd yn golygu y gallant ymddangos yr un mor dda o'u printio ar bapur.

Mae'r "Eco", ac yn enwedig ers cychwyn cyhoeddi mewn lliw,

yn anelu at ddangos y lluniau, nid yn eu maint gwreiddiol, ond yn faint dwy golofn neu fwy. Hynny yw, mae'r lluniau'n cael eu chwyddo. A dyna lle cyfyd y broblem.

Mae llun grŵp o bobl yn ymddangos yn ddigon eglur ar sgrin ffôn, a gellid ei gyhoeddi yn y maint hwnnw. Ond mewn papur bro byddai'r llun maint

gwreiddiol yn ymddangos yn bitw iawn. Yn anffodus, o'i chwyddo mae'r bobl yn y grŵp yn edrych fel cymeriadau o wlad Lego, ac yn troi'n sgwarau annelwig!

Mae'r dull o drosglwyddo'r llun (o'r ffôn neu ar e-bost) yn aml yn achosi i'r llun gael ei gywasgu yn y fath fodd fel na ellir ei 'chwyddo' heb golli manylder.

Mae llun camera neu gamera ffôn yn ffeil fawr. Er mwyn ei anfon ar y wê mae'r meddalwedd yn lleihau maint y ffeil i'w anfon yn gynt. Yr unig ffordd o leihau maint llun ydi drwy dynnu gwybodaeth ohono. Felly bydd y miliynau o flociau bach sy'n gwneud y llun yn cael eu cyfuno i flociau mwy. Bydd y llun yn edrych yn iawn ar sgrin ond yn ymddangos fel blociau mewn print.

Mae yna opsiwn i anfon y llun yn ei lawn faint ym mhob darn o feddalwedd neu ffôn. Rhaid chwilio amdano gan y bydd mewn gwahanol lefydd.

Os gwelwch fod llun yn llai na rhyw 130KB (KB nid MB) yna mae'n rhy fach i'w argraffu'n llwyddiannus. I weld maint llun rhowch glic dde arno, a dewis Properties yn y gwaelod.



Merched y Wawr

Dathlu Gŵyl Ddewi a phen-blwydd y gangen yn ddeugain oed fu hanes y gangen mis Mawrth. Yr oedd y Neuadd Goffa wedi ei haddurno gan y swyddogion ac yr oedd awyrgylch hyfryd yno.

Mair Price, ein llywydd, oedd yn llywio'r noson, a chroesawodd ein Llywydd Cenedlaethol, Meryl Davies, Dinas, Pwllheli. Cafwyd anerchiad byr ganddi.

Braf oedd cael cwmni dwy gyn-aelod sef Nia P. Jones (Stad Eryri gynt), ac Ann Hopcyn o Gaernarfon.

Cawsom wledd yn y lluniaeth a baratowyd gan Cerid McKinnon a'i staff (Pryd i Bawb, Llanrug).

Wedi hyn, tro'r delynores a'r gantores, Gwenan Gibbard, oedd ein diddori a chawsom ganddi berfformiadau ar y delyn, unawdau cerdd dant a chaneuon gwerin. Mwynhaodd pawb ei pherfformiadau swynol a'i hanwyldeb o'u cyflwyno. Noddwyd Gwenan gan Noson Allan, Cyngor Celfyddydau Cymru.

Anwylyd Wyn Jones, is-drysorydd y pwyllgor, oedd wedi paratoi y gacen hardd ar ein cyfer. Wedi torri'r gacen gan y Llywyddion fe ddosbarthwyd darn i bawb. Mair Read ac Anita oedd yn gofalu am y gwin, a chynigwyd llwnc destun i'r gorffennol a'r dyfodol gan Meryl.

Yr oedd arddangosfa wedi ei gosod yng nghefn y neuadd oedd yn cynnwys pob rhaglen dros y deugain mlynedd, hefyd lluniau, cofnodion a llyfrau lloffion. Diolch i Beti Owen ac Eirlys Sharpe am y deunydd. Gydol y nos yr oedd sgrin deledu ymlaen wedi ei threfnu gan Meic a Jen Roberts o Gwmni Delwedd, yn dangos lluniau o'r aelodau dros y blynyddoedd. Yr oedd gwen a thristwch yn y gwyllo.

Darllenodd Mary Wyn Jones, gwraig Richard Llwyd Jones, bedwar englyn i'n cyfarch a'n llongyfarch, ac hefyd cafwyd englyn gan Jon Meirion o Langrannog, sef brawd Anwylyd.



Her i'n hiaith gymylau'r nos - i wthio'n
ddwyieithog ein hethos.
Eiriau rhwydd sy'n duo'r rhos,
Lwyd wedd na wel y diddos.

Mynnu safon mewn safiad - yn eich bro
yw'ch braint, rhoi arweiniad
Dros yr iaith, golud mudiad;
Hyn yw pris mynnu parhad.

Hyder doe yw pedwar deg, - mewn hanes
mae'n ennvd 'di hedeg.
Iaith ar daith, o'i thrin yn deg,
I'w chynnal, rhoi ychwaneg.

Heno, goleui'r dunos - ac angerdd
y gangen yw'r achos.
Hir yw'r nych drwy oriau'r nos,
Y Wawr sy'n mynnu aros.
R.L.L.J.

Ymroddiad triw i'r lliwiau - a'r Gymraeg
Ym mraint yr aelodau;
A rhuddin gweithgareddau
Yn bur a hael i'w barhau.
Jon Meirion.

Diolch i'r ddau fardd.

Yn dilyn hyn bu'r aelodau yn hel atgofion, difyr a doniol. Pwysleisiodd Ann Hopcyn cymaint o hwyl a chyfeillgarwch yr oeddem wedi ei gael dros y blynyddoedd.

Wedi noson hynod bleserus, daeth yn dro'r diolchiadau. Diolchodd Mair i bawb oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd at lwyddiant y noson. Cyflwynwyd blodau i Mair gan Elizabeth. Trwy garedigrwydd Edwina cyflwynwyd trefniant o flodau hardd i Meryl, Gwenan Jen a Rita. Diolch Edwina. Diolchwyd i Mair Williams, y trysorydd ac i Rita am gyd-lynu popeth. Da oedd deall fod Manon, merch Anne Elis, yn gwella ac anfonwyd cofion at Barry, mab-yng-nghyfraith Elizabeth, oedd wedi derbyn triniaeth. Cydymdeimlwyd ag Eleri Warrington a'r teulu o golli mam a nain annwyl. Da iawn yw clywed fod Bet yn gwella.

Parhad BETHEL



Ebr Bethel Yr Athro Gwyn Thomas yn cyflwyno Tystysgrif Gwobr Norah Isaac I Manon

Ennill Gwobr Genedlaethol – Yng ngwanwyn 2014, safodd Manon Elwyn, Bryn Owen, Bethel, arholiadau llafar ac ysgrifenedig y Dystysgrif Sgiliau Iaith, dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Pan ddaeth y canlyniadau, cafodd Manon wybod mai hi oedd wedi ennill y marciau uchaf drwy Gymru gyfan a dyfarnwyd iddi Wobr Norah Isaac ynghyd â Thystysgrif a gwobr ariannol. Yr Athro Gwyn Thomas a gyflwynodd y Dystysgrif i Manon ac yntau'n cael ei wneud yn Gymrawd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn yr un seremoni. Mae Manon ym mlwyddyn olaf ei chwrs gradd ym Mhrifysgol Bangor ac yn astudio Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg.

Cymdeithas Lenyddol Gari Wyn oedd y siaradwr y mis yma ac, yn dilyn croeso gan y Dr. J. Elwyn Hughes, bu'n siarad yn ddifyr iawn ar y testun 'Effaith Uwchaled ar Gymry' gan sôn am ddyddiadau oedd yn bwysig iddo. Y cyntaf oedd Mawrth 1af 1715 a hynny yng Nghadeirlan St. Paul's yn Llundain pryd y cafwyd y dathliad cyntaf go iawn o ddydd Gŵyl Dewi Sant, gan fod cymaint o Gymry wedi setlo yn y ddinas. Aeth ymlaen i siarad am deulu'r Morusiaid o Sir Fôn a'u cyfraniad hwythau i lenyddiaeth Cymraeg, a bu'n sôn am nifer o bersonau eraill o ardal Uwchaled oedd â hanes iddynt, megis Owen Jones oedd yn gweithio mewn cwmni gwneud hetiau ac yn ymddiddori mewn hanes Cymru, barddoniaeth Cymru a Cherdd Dant.

Un o arwyr y siaradwr oedd John Jones (Jack Glan-y-gors) awdur o ardal Cerrigydrudion a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes fel tafarnwr yn Llundain ac yn aelod blaenllaw o Gymdeithas y Gwyneddigion.

Diolchwyd iddo yn gynnes iawn am sgwrs ddiddorol gan y Dr. J. Elwyn Hughes.

I gloi gweithgareddau'r Gymdeithas am eleni bydd y swper pen tymor yn Nhafarn y Gardd Fôn, Felinheli, ar nos Fawrth Ebrill 21ain. Manylion gan Nora Parry, Sheila Roberts a Glenys Griffiths.

Clwb Bro Bethel Dathlu Gŵyl Ddewi oedd yr aelodau y mis yma a hynny yng nghwmni plant yr Ysgol Gynradd. Cafwyd cyngerdd o safon uchel iawn gyda holl blant yr Ysgol yn eu tro yn cymeryd rhan a chyflwyno eitemau yn ymwneud â Chymru, megis canu, llefaru, hanesion Dewi Sant, dawnsio ac offerynnol.

Wrth ddiolch i'r plant a'r holl athrawon am ddiddanu henoed y pentref, cyfeiriodd Llywydd y Clwb, y Parchedig Marcus Wyn Robinson at ymroddiad y plant, a phob un wedi rhoi o'i orau. Ar ddiwedd y cyfarfod cyflwynwyd rhodd ariannol o £75 i'r ysgol fel gwerthfawrogiad o'r cyfan.

Bydd y cyfarfod nesaf brynhawn Mawrth, Mawrth 28ain yn Ffestri Bethel gyda Dr. Huw L. Roberts, Caernarfon yn annerch.

Noson Blasu Gwin Noson hwyliog yng nghwmni y Parch Marcus Wyn Robinson yn Neuadd Bethel nos Wener, Ebrill 24 2015 am 7.00 o'r gloch. Dowch i ymuno â ni am noson o hwyl. Bydd elw'r

noson yn mynd i Grwp Apel Uned Cancr a Haematoleg Alaw. Mynediad yn £10.00 Tocynnau i'w cael gan Kathryn Jones: ffon 01248 670501 neu galw yn Y Ddolwen, Bethel.

Noson Lawen Nos Wener, Mawrth 13eg, cafwyd noson ardderchog o ddoniau lleol yn y neuadd. Noson a drefnwyd gan Siôn Emlyn i godi arian at ei daith i Patagonia yr haf yma gyda Chwmni Drama'r Urdd fydd yn perfformio drama 'Mimosa' i ddathlu 150 mlynedd taith y Mimosa i Batagonia a sefydlu'r Wladfa.

Roedd y talentau lleol yn werth eu gweld a'u clywed ac yn ein gwneud yn falch o ieuenctid y fro.

Cynhelir cyfarfod nesaf o Bwyllgor Eisteddfod Bethel nos Lun, Ebrill 13eg, am 7.00pm yn Ffestri Capel Bethel. Mae aelodau'r pwyllgor yn gwerthfawrogi cefnogaeth unrhyw un i'r cyfarfod er mwyn sicrhau dyfodol i'r Eisteddfod.

Braf oedd gweld Gethin Wyn, Dolserau, yn arwain côr JMJ yng nghystadleuaeth Côr Cymru.

Ymysg yr aelodau hefyd roedd hogia o Fethel - Gruffydd John, Aled Jones a Guto Sion a Manon Gwynedd oedd yn cyfeilio. Da iawn y cochion!

Cefnogwch ein hysbysebwr

DODREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-Ilyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft


PRISIAU CYSTADLEUOL

Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

grid 76

dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

LLÊN BETHEL



Fel rhan o ddatliadau Gwyl Ddewi eleni cynhaliwyd noson yn dathlu cyfraniad ardal Bethel i lenyddiaeth Cymru. Cynhaliwyd yr achlysur yn Festri Capel Cysegr wedi ei threfnu gan Richard Llwyd Jones. Daeth tyrfa gysurus draw gyda thrawsdoriad oedranol ac ar ddiwedd y noson trosglwyddwyd elw o £140 i Gronfa Ysgol Bethel.

Yn naturiol yn ystod llunio'r noson gwnaed defnydd o gasgliad ysgrifau W.J. Gruffydd sef Hen Atgofion. Gwnaed cyfeiriadau at enwau lleol, cymeriadau, arferion a digwyddiadau llenyddol y cylch. Yn ôl Gruffydd prin iawn oedd cyfraniad ardal Bethel hyd at ddiwedd y 19 ganrif. Caed ambell i rigymwr.

Yna daw tro ar fyd gyda chyrhaeddiad y Parch. Rhys J. Huws fel gweinidog Capel Annibynol Bethel. Taniwyd y fro gan ei frwdfrydedd llenyddol. Roedd wedi cipio'r Goron Genedlaethol ym Meirion yn 1895, blwyddyn cyn iddo gyrraedd Bethel. Fe'i ddisgrifiwyd gan Gruffydd fel athro plant o'r radd flaenaf. Ac ym Methel y sefydlwyd Eisteddfod y Plant. Heidiai'r plant i'r cyfarfodydd. Caed sglein ar y dysgu. Wedi 8 mlynedd gadawodd y gweinidog am Fethesda ac yna i Frynaman. Aeth â syniad Eisteddfod y Plant gydag ef, ac mae Gruffydd yn argyhoeddedig mai dyma'r sylfaen i Eisteddfod yr Urdd a sefydlwyd yn y 1920'au.

Yna daethom at W.J.Gruffydd ei hun. Ceiswyd adlewyrchu ei gyfraniad mewn sawl maes o addysg, barddoniaeth, golygydd ac hefyd am 7 mlynedd fel Aelod Seneddol dros Golegau Cymru. Hynny wedi brwydr rhyngddo a Saunders Lewis â rwygodd Gymru'r cyfnod. Yn sicr, dyma un o gymeriadau mwyaf heriol, ddi-flewyn ar dafod y Gymru Gymreig yn hanner cyntaf yr 20'ed ganrif. Dyfynwyd yn helaeth o Hen Atgofion wedi eu cyflwyno gan ddarlennwyr y noson Mair Read ac Ann Elis.

Darllenwyd y gerdd Ywen Llanddeiniolen gan Gwyneth Fachell a chafwyd dehongliad o'i gerdd Ynys yr Hud gan Gwenllian Griffiths a Heledd Huws gyda Gethin Griffiths yn cyfeilio. I orffen yr adran ar Gruffydd ymunodd y gynulleidfa i ganu Cerdd yr Hen Chwarelwr. "Segur fydd y cŷn a'r morthwyl mwy."

I adlewyrchu dawn lenyddol ieuencid y fro bresennol cafwyd datgyniadau o'r darnau gipiodd y ddau dlws llenyddol - i'r cynradd ac uwchradd - yn Eisteddfod Bethel 2014. Roedd pawb wedi syfrdanu ag aeddfedrwydd y cynhyrchion. Darllenodd Joe Bennett - 9 oed - ei gerdd feddylgar Fy Myd. Cerdd a neges bendant iddi. Yna darllenodd Alaw Huws ei ymson arobryn. Roedd y darn mewn atebiad i astudio y nofel Leni fel rhan o waith cwrs. Eto, ysgrifennu aeddfed drwy lygaid llenor sylwgar, sensitif. Cafodd y ddau ddarn werthfawrogiad haeddiadol.

Yna, troi at un o gymeriadau Bethel, y diweddar T.H.Jones neu Twm Bethal i'w gyfoedion. Roedd yn awdur dau lyfryn, un o gerddi a'r llall yn gymysgedd o gerddi a storïau. Dyma enghraifft o fardd gwlad yn croniclo hanesion a digwyddiadau ei filltir sgwar. Cyfeirwyd hefyd a'i 'gysylltiad' gyda'r Special Branch dros gyfnod yr Arwisgiad 1969, a'r trip gafodd gyda'i deulu i Fae Colwyn ar y diwrnod mawr. Darllenwyd dwy o'i gerddi sef Tai Mwg Bethel 1970 - digwyddiad roedd rhai o'r gynulleidfa yn ei chofio - a'i gerdd ddychmygol Ennill y Pwls. O wneud hynny buasai Pwll Nofio enfawr ym Methel a sefydlu'r Cremlyn Hilton. Darllenwyd hefyd ei ysgrif ar Gymeriadau Bethel a stori sawl 'chase'.

Yn yr adran nesaf cyfeirwyd at lenorion er nas ganwyd yn y pentref sydd â chysylltiad agos a'r fro. Y cyntaf yw Alice Jones. Darllenwyd beirniadaeth Hafina Clwyd yn tystio i ddawn geiriol Alice pan ennillodd ar gystadleuaeth yr Hunangofiant yn y Genedlaethol yn Sir y Fflint, 2007. Bu Alice yn llwyddianus ar

y lefel yma sawl tro. Hefyd cyfeirwyd at ei chyfraniad mawr ym myd llenyddiaeth plant.

Yna yn ei tro Elen Jones (Nel Lôn Glai), a Jack Foulkes a'i gyfrol O'r Rafn i Rangoon yn olrain ei gyfnod yn rhyfel waedlyd y Dwyrain Pell adeg yr Ail Ryfel Byd. Yna William James, y Monwysyn â ymgartrefodd ym Methel wedi ymddeol fel prifathro yn ei Fôn enedigol. Ei gyfrol hynod oedd Ar Drywydd y Fonesig Constantia yn olrhain hanes merch o dras a lechai yn ei goeden deulu. Fe adolygwyd y ddwy gyfrol olaf yn yr Eco. Yna John Elwyn Hughes sydd yma ym Methel ers sawl blwyddyn. Cyfeirwyd at ei aml waith ar Caradog Prichard, ac hefyd am ei waith amhrisiadwy fel ieithydd a'i lyfrau o ganllawiau yn y maes yma. Cyfeirwyd hefyd at ei waith graenus fel golygydd cyfrol Cyfansoddiadau a Beirniadaethau y Genedlaethol ers sawl blwyddyn.

Cafwyd cyfraniadau wedyn gan ddau o feirdd y pentref, sydd wedi bod yn llwyddianus mewn sawl eisteddfod dros y blynyddoedd - Dafydd Williams a Richard Llwyd Jones.

Yna cafwyd cyfraniad graenus gan Sion Elwyn Hughes, gyda detholiad o'i ysgrif am ei radd M.A. yn ymwneud a cherddi y diweddar Gerallt Lloyd Owen. Cafwyd cyfraniad sylwgar ganddo yn dangos ystod gallu un o'n prif feirdd. Roedd rhan o'r ysgrif wedi ymddangos yn y rhifyn coffa i Gerallt o'r cylchgrawn Barddas.

Yna daethpwyd at ddau o gewri'r pentref. Yn gyntaf Angharad Price. Gyda balchder y croesawyd Angharad 'adra' a'i llongyfarch ar ei phenodiad i Gadair y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Roedd Angharad wrth gwrs yn ennillydd y Fedal Ryddiaith Genedlaethol am ei nofel unigryw O Tyn y Gorchydd. Gallai rhywyn deimlo rhyw drydan yn yr ystafell wrth iddi ddarllen un detholiad o'r nofel - y darn ble mae'r ddau frawd bach dall yn gadael cartref i fynd i'r Ysgol arbennig ar gyfer y deillion mor bell o'u cynefin. Soniwyd hefyd am ei nofel Caersaint wedi ei leoli yng nghwlad y Cofis.

Yna y diweddar Brifardd Selwyn Griffith, un hefyd wisgodd fantell yr Archdderwydd. Un a ymfalchiai yn ei wreiddiau ym mhentref Bethel. Fe wahoddwyd y bardd/newyddiadurwraig Karen Owen i ymwneud a chyfraniad Selwyn. Fe ganolbwyntiodd Karen ar bryddest aflwyddianus Selwyn sef Y Dre - ym marn llawer ei bryddest orau. Roedd hon yn ail am y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Ruthin. Soniodd Karen am waith ymchwil trylwyr Selwyn o gwmpas Tref Caernarfon, a chyplysu yn y gerdd yr adfywiad ieithyddol o sefydlu Cyngor Gwynedd. Y bardd llwyddianus yn Ruthin oedd Alan Llwyd, yn cyflawni'r dwbwl. Pe buasai Selwyn wedi llwyddo buasai hanes llenyddol y Genedlaethol wedi ei chwyldroi. Ond cofiwyd hefyd am ei awr fawr yn Eisteddfod Llanrwst. Ni ellid cyfeirio at Selwyn heb nodi ei gyfraniad aruthrol i ddarnau adrodd i blant. Addas felly oedd cael parti llefaru o Ysgol Bethel yn adrodd dau ddarn i blant.

I gloi y noson daeth dau o sêr presennol y pentref at eu gilydd sef yr amryddawn Gwilym Rhys a Gethin Griffiths gyda llên a swm cyfoes y pentref. Diwedd glo teilwng i'r noson, gyda'u set acwstig yn denu'r gynulleidfa i ymuno.

Diolch i bawb a gyfranodd ac i Gwynfor Jones am gofnodi'r noson a'i gamera. Diolch am y lluniau drwy law Gwynfor a Dewi.

Gobeithio bydd y noson yn creu diddordeb ymysg ein hieuenctid yn y Pethe, ac i ni drigolion y fro i edmygu a gwerthfawrogi cyfraniad sawl un i'n diwylliant.

Richard Llwyd Jones

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts.
Ffôn: 870580

Sefydliad y Merched Yng nghyfarfod mis Chwefror croesawyd Dr Robin Parry, Llanberis, fel siaradwr gwadd. Testun ei sgwrs oedd y gwaith diweddaraf i Ymchwil Cancr ynghyd â'r ystadegau sydd yn dangos fod camau ymlaen wedi eu gwneud yn y triniaethau sydd yn arwain at wellhad o'r afiechyd. Aeth ymlaen ymhellach i drafod gwaith meddygon teulu mewn meddygfeydd gwledig. Diolchwyd yn gynnes iddo gan y llywydd, Pat Jones, am sgwrs addysgiadol a diddorol. Cyhoeddwyd y bydd noson cyfarfod y gangen fis Mawrth yn un fydd yn dathlu Gŵyl Ddewi a hynny yn y Felin, Pontrug, a noson bingo Grŵp Eryri yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanberis nos Lun, Ebrill 13eg.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Dydd Gweddi Chwirydd y Byd (Rhyngengwadol)

Bnawn Gwener, Mawrth 6ed, cyfarfu merched rhan o Ofalaeth Glannau'r Saint ac eglwysi Llanrug eleni yng Nghapel y Rhos, Llanrug. Ymunwyd mewn gwasanaeth byd-eang a baratowyd eleni gan Chwirydd Cristnogol y

Bahamas, seiliedig ar Efengyl Ioan pennod 13, sef neges Crist i'w ddisgyblion yn ystod y Swper Olaf a'i pherthnasedd i'w ddilynwyr drwy'r oesau. Cymerwyd rhan ar ran yr eglwys gan Iris Rowlands a Lowri Prys Roberts. Gwnaed casgliad tuag at waith Chwirydd y Bahamas ac achosion dyngarol yma yng Nghymru.

Y Gymdeithas Cynhelir cyfarfod cyntaf Y Gymdeithas, nos Iau, Ebrill 16eg yn Ystafell Gynhadledd Y Caban am 7 o'r gloch. Y siaradwyr gwadd fydd y Parchgn. Harri Parri a Trefor Jones, Caernarfon ar y testun "Gwn Glân a Beibl Budr". Llywyddir gan y gweinidog, y Parch Marcus Robinson. Croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno yn y nosweithiau misol drwy gydol yr haf a thaith i gloi fis Hydref.

Profedigaeth Cydymdeimlwn yn ddwys â Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer Margaret Jane Jones, gynt o Rhos Isaf ond a oedd wedi treulio y blynyddoedd diwethaf yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, lle bu farw ar Fawrth 14eg.

Oedfaon Ebrill

5: am 5.30 SUL Y PASG

Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

12: am 5.30 Parch Robert Owen Jones, Gaerwen

19: am 5.30 Parch Eifon Wyn Williams, Llanfairfechan

26: am 4 Parch Gwynfor Williams, Caernarfon

Er Cof am ŵr a thad arbennig a gofalgar, Geraint Rees Morris, gynt o Fferm Hafodty, Gwaun Cwm Brwynog, Llanberis

Hunodd Geraint ar yr ugeinfed o Ionawr 2012, pan yr oedd ond yn ddeugain mlwydd oed. Byddai Geraint yn ei ogoniant ar ddyfodiad y gwanwyn a'r tymor wyna yn ei anterth ar y mynydd. Mae'r hiraeth yn fawr a'r golled yn enfawr i Eira, ei wraig, a'r plant yn Hafodty; i Gwenno, Rhys a Jac (ei ŵyr bach) yng Nghae Cerrig; i Dafydd a Heulwen (ei rieni) a'r teulu oll yng Nghewn Coch, Deiniolen, ac i'w rieni yng nghyfraith, Glyn, Joanna a'r teulu ym Mhant y Buarth, Brynrefail.

Mae'n wanwyn eto

(er cof am Geraint)

Daw'r ŵyn drachefn i'r gefnen – hen gynnwrf

Y gwanwyn i'r dderwen,

A'r awel o Foel Rhiwen

A'i chawod bur uwch dy ben

Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr Isaf

(gyda diolch iddo)

Ger – mi gawn gwrdd yn y man

Os byddaf farw fory

A theulu ar fy ôl,

A wnewch chi ymgynghori

A'm claddu 'nhirwedd dâl?

Heb fod ymhell o gell y gŵr

Wnaeth fyw a marw mor ddi-stŵr.

Efallai'n wir, 'does neb a ŵyr

Y cawn ni ymgom wedi'r hwyr.

Dafydd (dy dad)

CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

Gwasanaethau y Capel Ar Ebrill 5ed am 2.00 o'r gloch y prynhawn cynhelir Oedfa'r Pasg dan ofal y gweinidog, Y Parch Marcus Robinson, a gweinyddir cymun.

Ar Ebrill 19eg am 10 o'r gloch y bore dan ofal Y Parch Harri Parri.

Clwb Merched Bu nifer o'r aelodau yn dathlu Gŵyl Dewi gyda swper yn Caffi Maes yng nghwmni Marcus Wyn Robinson a chafwyd noson ddifyr a hwyliog. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 16 yn y capel pan gawn sgwrs ar fywyd yn yr Arctic.

Dymuno'n Dda Bu Llio Jones, Glanrafon Bach, yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar a dymunwn wellhad buan iddi.

Tynfa Misol Dyma enillwyr mis Mawrth: 1af £40: J. Evans, Llwyn Alice (30); 2il £25: Sion ac Anna, Y Wern (82); 3ydd £15: Mark a Linda Jones, Tŷ Newydd (80); 4ydd £5: Tony ac Eirian Griffiths, Annedd (50).

Casglu Sbwriel Yn dilyn sawl cwyn mae'r Cynghorydd Hannah Hughes, ar y cyd â Cadw Cymru'n Daclus, yn trefnu bore casglu sbwriel yn ein cymuned dydd Sul, Mawrth 22 ain am 10 o'r gloch y bore o flaen y capel. Bydd croeso i unrhyw un ymuno, a darperir deunydd glanhau a phaned i'r rhai sydd yn cynorthwyo.

Genedigaeth Ar fore Sul y Mamau ganwyd mab i Geraint ac Alaw Roberts, Caerdydd, ac ŵyr bach i Derwyn a Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf. Mae Llew Garmon yn frawd bach newydd i Elis Cynan.

Pwyllgor Cae Chwarae Cynhelir Helfa Wy Pasg, fel arfer bellach, ar fore Sul Y Pasg (Ebrill 5ed). Gwyliwch y wefan am fanylion pellach.



Cylch Ti a Fi Croeso cynnes i rieni, gwarchodwyr, babanod a phlant bach i'r sesiwn wythnosol yn Ysgol Penisarwaun bob p'nawn dydd Iau o 1.30 tan 3.00 o'r gloch. Teganau, crefftau a chanu ar gyfer y plant, a bydd diod a bisgedi yn ogystal â phaned ar gyfer yr oedolion am gyfraniad o £1.

Y mis yma mi fydd y plant yn ddylunio pot planhigyn, plannu hadau a gwneud taith gerdded nodedig gan dderbyn gwobr ar y diwedd. Croeso mawr i bawb ymuno gyda ni.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun

Pêl Bonws Loteri – Enillydd mis Ionawr oedd Michael Jones Tyddyn Perthi gyda Rhif 15, a mis Chwefror Miss Mair Foulkes gyda rhif 43. Llongyfarchiadau.

Cydymdeimlo – Bu farw Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd yn 95 oed. Roedd yn wraig gwrtais a charedig bob amser. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Mrs Carys Parry a'r teulu i gyd yn eu colled.

Diolch – Dymuna teulu'r diweddar John Edwin Jones gynt o 8 Bryn Tirion, ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt wrth golli Brawd, Brawd yng Nghyfraith ac Ewytthr annwyl. Diolch am y rhoddion hael a drosglwyddwyd i Feddygfa Waunfawr, i'r Parch

Marcus Wyn Robinson am ei gefnogaeth a'i wasanaeth ddydd yr angladd ac i Dylan a Meinir Griffith, Tros y Waen, am eu trefniadau trylwyr a theimladwy, roedd y cyfan yn gysur mawr. Mae ein diolch yn enfawr i Gartref Nyrsio Penisarwaun am eu gofal diflino o John yn ystod yr amser a dreuliodd yno.

Llongyfarchiadau – I Carmen ac Iwan 2, Bryn Tirion, ar enedigaeth eu mab bach, Osian, Brawd bach i Erin ac Efan, ŵyr i Irfon a Heddwen a nai i Elen. Mae hefyd yn Or-ŵyr i Mrs Annie Hughes Cae Hywel.

Anfon Cofion – Mae rhai o drigolion y pentref bellach wedi symud i fyw i gartrefi preswyl ac yn parhau i dderbyn Eco'r Wyddfa bob mis. Anfonwn ein cofion atynt gan obeithio eu bod yn cadw mewn iechyd ac yn mwynhau darllen y papur bro.

Diolchiadau Dymuna teulu y ddiweddar Blodwen Pritchard, Llys y Gwynt, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn eu profedigaeth. Diolch am y rhoddion tuag at Ambiwllans Awyr Cymru. Hefyd, diolch i'r merched Gofal Cartref am eu gofal ar hyd y blynyddoedd ac i Gwynfor Jones, Llanberis, am wneud y trefniadau ac am ei garedigrwydd.

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Gala Nofio – Bu rhai o ddisgyblion Bl 3 i 6 yn cymryd rhan mewn Gala Nofio yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon dydd Iau, Ionawr 29ain. Llongyfarchiadau i bawb am gymryd rhan, daeth yr Ysgol yn 2ail allan o 12 ysgol ar y diwedd. Da iawn chi!

Gŵyl Athletau - Cymerodd plant Bl 5 a 6 ran yng Ngŵyl Athletau Ysgolion cylch Arfon dydd Mercher, Chwefror 11eg. Roedd safon y gystadleuaeth yn uchel iawn. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

Dydd Gŵyl Dewi - Cafodd y plant gyfle i ddod i'r ysgol mewn gwisg yn gysylltiedig â Chymru ar Chwefror 27ain. Yn y prynhawn cynhaliwyd pnawn Te Cymreig gan bwyllgor y Neuadd Gymuned gyda phlant yr ysgol ac aelodau'r pwyllgor yn paratoi'r adloniant. Roedd llawer o wahanol bobl o'r Gymuned wedi troi i mewn ac wedi mwynhau eu hunain yn arw. Gobeithiwn gynnal prynhawn tebyg y flwyddyn nesaf.

Eisteddfod Cylch yr Urdd – Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn, Chwefror 28ain. Diolch i bawb am wneud eu gorau, a llongyfarchiadau i'r Parti Unsain a ddaeth yn ail, ac Efa Baines yn ail ar yr unawd chwythbrennau. Dymunwn bob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Sir a gynhelir yn Neuadd Pritchard Jones Bangor dydd Sadwrn, Mawrth 14eg.

Ymweliad - Galwodd PC Dylan Pritchard yn yr Ysgol fore Gwener, Mawrth 6ed i gael sgwrs gyda phob dosbarth yn eu tro. Mae'n bleser ei groesawu yma bob amser a'r plant i gyd yn ymateb yn dda iddo.

Diwrnod 'Comic Relief' - Dydd Gwener, Mawrth 13eg cafodd pawb gyfle i ddod i'r ysgol gyda gwallt gwyllt yn ogystal â gwisgo dillad eu hunain. Casglwyd £53 tuag at yr achos teilwng yma. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Diwrnod Hyfforddiant - Cynhelir diwrnod o hyfforddiant i'r staff dydd Llun, Mawrth 31ain a dydd Llun, Ebrill 13eg. Bydd yr ysgol yn ail agor i'r plant ar ôl gwyliau'r Pasg dydd Mawrth, Ebrill 14eg.

Ail gylchu Antur Waunfawr – Diolch i bawb sydd yn dod â dillad ayyb i'r bin ail gylchu sydd yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau cyfraniad ariannol i'r ysgol bob tro mae'r bin yn llawn. Daliwch ati!

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyrr

Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol. Yng nghyd- destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574

Parhad PENISARWAUN

Arwyddion Newydd.



O'r diwedd mae arwyddion 20 milltir yr awr wedi cyrraedd Penisarwaun. Wedi ymgyrchu am fisoedd, da gweld fod yr arwyddion yn eu lle.

Bu sawl rheswm am yr oedi, anhawster trosglwyddo arlunwaith bendigedig plant Ysgol Penisarwaun i'r arwyddion, lleoliad yr arwyddion a bracedi anghywir i ddal yr arwyddion yn eu lle.

Gan fod yr arwyddion mor fawr ac amlwg, gobeithir bydd gyrrwyr cerbydau yn cymryd sylw ohonynt gan wneud y pentref yn fwy diogel i'r holl drigolion, yn arbennig i'r plant!

Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n ymgyrchu i gael yr arwyddion pwysig yma yn eu lle ac am ddal ati i gydweithio wedi'r holl fisoedd.

Dyma gadarnhad bod cydweithio gyda'n gilydd yn fanteisiol i ni ac yn ffordd o geisio gwella diogelwch a bywydau trigolion ein cymdeithas.

Diolch yn fawr i chwi gyd.

Cynghorydd Hefin Williams, Ward Penisarwaun

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER CALYBIEB

MENTER Môn

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

ERDF

Uweddau Cymru
Welsh Government

Europe & Cymru: Buddsoddi yn eich dyfodol.
Europe & Wales: Investing in your future.
European Regional Development Fund

TEITHIAU CERDDED EBRILL 2015

MAWRTH 7 EBRILL 2.00yp

HANES R.A.F. LLANDWROG (2 milltir)

CYCHWYN: CAFFI MAES AWYR CAERNARFON

EITHA HAWDD. ANGEN SGIDIAU CERDDED.

GWENER 10 EBRILL 10.00yb

DEINIOLEN 100 MLYNEDD YN ÔL (2 milltir)

CYCHWYN: CAFFI E.B.s DEINIOLEN.

EITHA HAWDD. SGIDIAU CERDDED.

(GOHIRWYD O 27 CHWEFOR)

SUL 19 EBRILL 2.00yp

CHWAREL DINORWIG I BIGIL: ADEILADAU COLL (3½ milltir)

CYCHWYN: Allt Ddu, Dinorwig.

EITHA HAWDD. GALLT I BEN BIGIL. SGIDIAU CERDDED.

GWENER 24 EBRILL 2.00yp

GLASINFRYN, CAERHUN A MINFFORDD (4½ milltir)

CYCHWYN: Stad Bro Infryn (tai cyngor), Glasinfryn. Rhannu ceir os yn bosibl.

CYMHEDROL. RHAI GELLYDD.

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

ERDF

Uweddau Cymru
Welsh Government

Europe & Cymru: Buddsoddi yn eich dyfodol.
Europe & Wales: Investing in your future.
European Regional Development Fund

CHIROPODYDD

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I'R CARTREF

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD o waith yn y GWASANAETH IECHYD

GAREJ CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

GERAINT OWEN CARPEDI


CARPEDI • VINYLS • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfa Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475



O Glwt y Bont i garchar Utica.

Yn rhifyn Chwefror o'r "Eco" soniais am ymweliad Humphrey Griffith â'i gartref yng Nghlwt y Bont, a'r ffaith iddo gael ei longyfarch ar ei ddyrchafu i swydd dirprwy siryf a rheolwr carchar Utica. Cysylltais a 'Ninnau', cylchgrawn/newyddiadur Cymry America a chael ateb sydyn iawn yn fy arwain at safle ar y wê. Ond roedd cael gafael ar wybodaeth ar y safle honno yn anodd iawn, ac yn y cyfamser, daeth hanes Humphrey Griffith i mi o Benygroes! Rwy'n hynod ddiolchgar i John Alan Roberts (Llanberis gynt) am hanes y teulu ac am yrfa Humphrey Griffith. Dyma sydd ganddo i'w adrodd:

Mae hanes Humphrey a'i gyn-deidiau yn adlewyrchu'r symud a'r bwrilwm yng Nghymru ddiwydiannol a thu hwnt yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a dechrau'r ugeinfed ganrif.

Yng nghyfrifiad 1851 mae cyfeiriad at Gerlan, Clwt Y Bont, gyda bachgen deuddeg oed, Thomas Griffiths yn was ar y fferm. Erbyn 1861 yr oedd Thomas Griffith yn lojar ym Mlaenycac, Ffestiniog, ac yr oedd yn chwarelwr wrth ei alwedigaeth. Fe sylwch bod cyfenw Thomas yn wahanol yn y ddau gyfrifiad, a bu hyn yn dipyn o boen wrth ymchwilio'r teulu.

Allwn i ddim dod o hyd i ddim am Thomas Griffith yn 1871, ond yr oedd ei wraig Elizabeth yn byw yn Stryd Glynllifon, Ffestiniog, a'r plentyn ieuengaf yn y tŷ oedd H. Griffith. Nodir ei fod wedi ei eni yn Llanberis. Mae cyfrifiad 1881 ar y llaw arall yn nodi bod chwe plentyn i Thomas ac Elizabeth wedi eu geni yn Sir Feirionnydd. Mwy o gymhlethdod!

Erbyn 1891 yr oedd Humphrey yn byw yn Gerlan, Clwt y Bont, ac fe nodir bod Jane, y plentyn ieuengaf, wedi ei geni yn Llanwddyn, Sir Drefaldwyn. Mae cyfrifiad 1901 yn ategu hyn. Mae'n bosibl fod Thomas (tad Humphrey a Jane) wedi bod yn gweithio ac yn adeiladu'r gronfa ddŵr Efyrrnwy i gyflenwi dŵr i ddinas Lerpwl. Dechreuwyd ar y gwaith yn 1881 ac fe anwyd Jane yn 1884.

Ond i ddilyn hanes Humphrey. Priodwyd Humphrey ac Elizabeth Jane Williams yn Llanddeiniolen, yn 1894. Diddorol sylwi bod Elizabeth wedi ei geni yn Danielsville, Pennsylvania, ynghyd â'i brawd, Ellis. Ni bu'r ddau yn byw yn hir yno gan iddynt ddychwelyd i Ysgoldy, Groeslon Raca. Mae cyfrifiad 1901 yn nodi bod dau o wyrion i Thomas Griffith o'r cyfenw Taylor yn byw yng Nghlwt y Bont hefyd, ond wedi eu geni yn Aberpennar, Sir Forgannwg. A oedd y diwydiant glo yn denu?

Erbyn 1901 yr oedd Humphrey ac Elizabeth yn byw yn Tan y Pant, Llanrug. Roedd Hugh neu Hughie (1894-1920) wedi ei eni yn Ne Cymru tra bod Robert (1898-1986) wedi ei eni yn California! Mae'n anodd iawn gwirio y fath ffeithiau.

Nid oedd y symud wedi arafu eto! Ym Medi 1906 mudodd

Humphrey at Ellis, ei frawd yng nghyfraith, i West Pawlett, Vermont. Ym Mai 1907 ymunwyd â Humphrey gan Elizabeth ei wraig, Hugh, Robert a John Ellis (1902-). Symudodd y teulu i Granville, NY, erbyn 1910, a bu dwy ychwanegiad i'r teulu, sef Mary (1907-1976) ac Elizabeth Jane (1911-1953). Ond symud fu hanes y teulu unwaith eto, a'r tro hwn i Utica, NY. Yn 1920 yr oedd Humphrey yn swyddog carchar, ac nid yn chwarelwr. Nodir ei fan geni fel Pennsylvania. Cymhleth iawn unwaith yn rhagor! Yn yr un flwyddyn bu farw Hugh, ac yntau wedi bod yn rhingyll ym myddin Canada, ac wedi dioddef effeithiau nwy ac anafiadau. Yn raddol gadawodd plant Humphrey y nyth, ac erbyn 1940 yr oedd Humphrey a'i wraig a John yn dal i fyw yn y cartref. Yr oedd Elizabeth Jane yno hefyd ac wedi priodi â Fred Ohman, gŵr o dras Almaenig.


Ym Medi 1919 gwnaeth Humphrey gais am basport. Y rheswm a roddir oedd i setlo etifeddiaeth modryb iddo ac i ymweld a'i dad oedrannus. Yn ôl papur newydd 'Y Drych' sonnir am Humphrey yn ôl yn ei hen fro.

Ar ôl ei farwolaeth yn 1952 rhoddwyd coffad iddo yn y papur lleol yn Utica. Nodir ei fod yn berson adnabyddus, yn enwedig gyda'r eisteddfodau. Bu hefyd yn gwasanaethu fel dirprwy siryf am ddeuddeg mlynedd. Roedd yn aelod selog o Eglwys Bethesda, gan wasanaethu fel Arolygwr yr Ysgol Sul. Yr oedd yn aelod o Gymdeithas Y Cymreigyddion, a ddatblygodd i fod yn Gymdeithas Dewi Sant. Yr oedd yn gyfrannwr selog i'r 'Drych' ac yn ysgrifennu ar lu o bynciau gwahanol megis Y Rhyfel Byd Cyntaf, digwyddiadau yng Nghymru, ac hyd yn oed polisi tramor Mexico. Mae'r holl erthyglau ganddo yn adlewyrchu dealltwriaeth, darllen eang a gallu rhyfeddol.

Ceir manylion am blant Humphrey hefyd, a cheir yr argraff eu bod wedi ymdoddi i'r bywyd Americanaidd. Yn 1952 yr oedd gan Humphrey 14 o wyrion, 12 o or-wyrion, a nifer helaeth o neiaint, gan gynnwys dau a oedd yn byw yng Nghymru.

Ond nid yw pob stori yn gorffen yn hapus. Lladdwyd dau ŵyr i Humphrey mewn damwain car yn ardal Utica, yng Ngorffennaf 1969; yr oedd Raymond a Richard Griffith yn ddau frawd. Yn 1992 cafodd ŵyr arall, Humphrey William Griffith ei saethu yn ei frest yn Nash, Gogledd Carolina. Bu farw o fewn ugain munud. Trodd y freuddwyd Americanaidd yn hunllef.

A dyna'r hanes yn ol gwaith ymchwil John Alan Roberts. Ond fe allai rhai o'i ddisgynyddion neu hyd yn oed aelodau eraill o'r teulu fod yn dal yng Nghymru, neu hyd yn oed ym mro'r 'Eco'. Tybed pwy oedd y fodryb y bu'n rhaid i Humphrey setlo'i hetifeddiaeth? A oedd plant ganddi, ac a oes disgynyddion i'r rheini yn parhau yn y fro?



GWAITH
COFFAOL
LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Gwerthu Glynrhonwy.

Cafodd Glynrhonwy gryn sylw'n ddiweddar oherwydd y datblygiadau arfaethedig yno. Ond pwy oedd biau'r tir yn wreiddiol? Yn ddiweddar deuthum ar draws dogfen sydd dros dri chan mlynedd oed. Mae'n ymwneud a throsglwyddo tir rhwng aelodau o deuluoedd nad oedd ganddynt ddim cysylltiad a'r fro hyd y gwelaf. Mae'r ddogfen gyntaf yn dyddio o fis Gorffennaf 1684, ac yn enwi'r ffermydd a'r tiroedd canlynol, i gyd mae'n debyg ym mhlwyf Llanrug (fel yr oedd bryd hynny), sef Glynrhonwyn, ddolhelig or karrig y fran, tythyn mawr, y fron, ynys y merched, tythyn y corn, tythyn y felin, tythyn y wern, kefen y goe a gweroglodd fawr. Mae'n amlwg o'r uchod mai un daliad oedd y Ddôl Helyg a Charreg y Fran.

John Ellis a'i wraig, Catherine sy'n rhan o'r cytundeb gyda Robert Wynne, Maes y neuadd, Llandecwyn, Meirionnydd. Roedd John Ellis yn Rheithor plwyf Llanddyfnan, Môn ac yn briod a Catherine, aeres stad Bodlew, plwyf Llanddaniel, eto ym Môn. Roedd hen, hen, hen hendaidd Catherine yn frawd i Thomas Williams o'r Faenol, ac efallai mai eiddo Stad y Faenol yn wreiddiol oedd y tiroedd!

Roedd gan John Ellis a Catherine bedwar o blant, ond bu'r ddau fab hynaf farw yn weddol ifanc, gan adael Margaret, y ferch hynaf yn aeres. Roedd hi'n briod a gwr o Loegr, Henry Throughton, a buont yn rhan o achos llys ynglŷn â'r tiroedd rywdro wedi marw Catherine Ellis yn 1723. Nid yw'r cofnodion yn gyflawn, ac anodd penderfynu beth oedd sail yr achos.

Erbyn mis Mawrth 1730 mae Catherine, (merch Marget Throughton ac wyres Catherine Ellis), a'i gwr, Hugh Kennedy yn arwyddo cytundeb morgais ar y tiroedd. Erbyn hyn maent yn cael eu henwi fel a ganlyn: Glynrhonwyn, Carreg y Fran, Tyddyn Mawr, Tyddyn y Fron, Isallt, Tyddyn y Corn, Cefn y Goe ac Efail Newydd (ym mhlwyf Llanbeblig). Does dim son bellach am ynys y merched, tyddyn y wern na gweroglodd fawr, ond daw lle o'r enw Isallt i'r amlwg.

Chwe mlynedd yn ddiweddarach a daeth y cysylltiadau teuluol hyn a'r ardal i ben. Ym mis Mai 1736 prynwyd yr holl eiddo gan Thomas Wynne, Glynllifon am £1313, a pharhaodd yr eiddo ym meddiant Stad Glynllifon am dros ddwy ganrif wedi hynny.

Cerdd gan Glan Alaw.

Yn dilyn y cais am wybodaeth ynglŷn â Glan Alaw, Brynrefail, cysylltodd John Glyn Hughes, Llanidloes (Llanrug gynt) i nodi fod Glan Alaw wedi ysgrifennu cerdd i goffau ewythr iddo, sef Richard Hughes, Hafod Owen, Ceunant, fu farw yn dair ar hugain oed o'r 'pneumonia'. Roedd y bachgen ifanc yn ewyrth hefyd i William John Williams, Prysgol a'i chwaer Meira Pritchard, Tai Bryngwyn, (Cefn Llwyd gynt)

Fel bore haf ei fywyd fu
Yn gwenu'n rhydd mewn cynnydd cu,
I'w deulu'n bopeth cafwyd ef
Oedd annwyl gan y byd a'r nef;
Ond daeth i'r amlwg ar ei wedd
Rybuddiol iaith ei galon gudd.
Ac heddyw'n gylch â drylliog wedd
Fe'n ceir yn wylo uwch ei fedd.

Derbyniwyd ymatebion hefyd gan Owen Jones, Llangefni ynglŷn ag ysgolion Rhiwlas a Phentir, a gan Hywyn Williams (Deiniolen gynt) ynglŷn â hir-hoedledd y teulu o Lanberis. Bydd eu cyfraniadau'n cael eu cynnwys yn rhifyn nesaf yr 'Eco'.

.....

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

.....

Y CWMY GLO

Profedigaeth Yn Ysbyty Glan Clwyd bu farw Gwilym John Parry, gynt o 'Rallt Deg. Roedd yn fab i Owen Emyr a Jenny Parry ac roedd modryb iddo, Miss Mary Parry, yn athrawes yn Ysgol Gynradd Llanrug. Bu Gwilym yn athro yn Ysgol John Bright, Llandudno, ac yn Llandudno y gwnaeth ei gartref a'i alw yn 'Rallt Deg. Gedy ferch, Helen, a thri o wyrion. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll.

Yn yr Ysbyty Dymunwn wellhad llwyr a buan i Francis Hughes, 17 Dôl Afon, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r

aelodau yn Eglwys Sant Mair bnawn Mawrth, 17 Mawrth, am ddau o'r gloch. Croesawodd yr arweinydd bawb i'r cyfarfod a dechreuwyd gyda gweddi Undeb-y-Mamau. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth rai o'r aelodau. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Chwefror gan Auriel Howels.

Croesawyd y Parch Jeffrey Hughes i'r cyfarfod a chafwyd adroddiad ddiddorol ganddo am fywyd y bardd Ignatius Loyola a darllenwyd un o'i weddiau gan yr aelodau.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Marjorie, Dorothy, Gwyneth a


Hilda. Enillwyd y raffl gan Irona Morgan. Diolchwyd i'r gwesteion a'r Parch Jeffrey Hughes gan Auriel. Dyddiadau i'w cofio
Cyfarfod nesaf Ebrill 21: Siaradwr gwadd Joe Large.
Mai 19: Bwrdd Gwerthu.
Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.

Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo Sedd Wag

Yn dilyn ymddiswyddiad diweddar, mae sedd wag wedi codi ar Gyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo. Os oes diddordeb gennych mewn materion lleol, ac naill ai angen rhagor o wybodaeth am y rôl, neu yn dymuno gwneud cais i eistedd ar y Cyngor dylid, yn y lle cyntaf, anfon llythyr yn datgan diddordeb at Mr Meirion Jones, Clerc Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo, 7 Nant y Glyn, Llanrug, Gwynedd, LL55 4AH neu drwy ebost at meirionjones5@gmail.com erbyn 20fed o Ebrill 2015.



BWYD ANIFEILIAID
BOCM • PAULS
GWAIR GWELLT a HAYLAGE
ROBERTS
HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF
Ffôn **07748692100 • (01286) 660254**



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

www.fframia.com

Merched y Wawr

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i gyfarfod o gangen Llanrug o Ferched y Wawr ar nos Fawrth, 10ed Chwefror, gan y Llywydd, Menna Williams. Llongyfarchwyd Frank Green, gŵr Meryl, ar gael arddangosfa o'i waith ym Mhlas Glyn y Weddw, Llanbedrog ac hefyd yn ddiweddar gwelwyd cyhoeddi llyfr dwyieithog 'Frank Green a'r Adeiladwyr Cymreig'.

Yna aeth Menna ymlaen gyda chyhoeddiadau pellach. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad aelodau'r gangen gan Sefydliad y Galon. Cynhelir Cinio'r Llywydd Cenedlaethol, Meryl Davies, yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis ar ddydd Sadwrn, 18ed Ebrill. Mae Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi yn bwriadu gosod cofeb i long y Mimosa a hwyliodd o Borthladd Lerpwl i Borth Madryn ym 1855 a phenderfynwyd cyfrannu swm o £30 tuag at gost y gofeb a'r dathliadau. Cynhaliwyd Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail ar ddydd Sadwrn, 28ain Chwefror a gofynnwyd i'r aelodau gyfrannu brechdanau a chacenau neu gyfraniad ariannol o £5.

Estynnwyd croeso twymgalon i'r gŵr gwadd, Rhys Mwyn, brodor o Lanfair Caereinion sydd wedi gwneud enw iddo i hun fel rheolwr band ac, yn ddiweddarach, fel archeolegydd. Testun ei gyflwyniad oedd 'Beth yw Archaeoleg? Darganfyddiadau Diweddar'. Dangosodd nifer o leoliadau sy'n gyfarwydd i'r mwyafrif ac hefyd darganfyddiadau oedd yn perthyn i wahanol gyfnodau hanesyddol. Taflwyd gipolwg

ar Borthdinllaen lle defnyddid y penrhyn fel waliau'r fryngaer ar dair ochr a'i chymharu â'r fryngaer fawr sydd yn Ninas Dinlle. Ar ôl astudio Oes y Cerrig edrychwyd ar y cyfnod Celtaidd, dangoswyd cromlech Bodowyr ac edrych ar astudiaeth o Tai Cochion, lle roedd tai a ffyrdd dros arwynebedd 3 neu 4 cae yn ardal Brynsiencyn, yn dangos trefn newydd ac elfen fasnachol oddeutu'r flwyddyn 100 O.C. Edrychwyd ar y cyfnod Llychlynnaidd a dangoswyd gwaith cloddio ynghyd â'r sgerbydau a ddadorchuddiwyd yn ardal Y Glyn, Benllech. Yn ogystal, roedd yno gyllell mil o flynyddoedd oed gyda'r carn wedi ei wisgo i fwrdd ac, yn fwy hynod fyth, callestr oedd tua 5 mil o flynyddoedd oed a fuasai'n gyllell torri cig ardderchog petai yn cael ei rhwymo wrth ddarn o bren. Un ddamcaniaeth ynglŷn â'r olaf oedd fod y Llychlynwyr, fel llawer ohonom ni heddiw, yn mwynhau casglu henebion ond mae'n bur debyg mai'r gwir reswm oedd fod y tir yn y fan yma yn cael ei amaethu ers miloedd o flynyddoedd. Cyfeiriwyd at dŷ Neuadd yn Abergwyngregyn, clystyrau o dai o'r Oes Efydd ar Fynydd Rhiw, y fynwent Gristnogol gynnar a ddarganfuwyd ar safle Ysgol yr Hendre, Caernarfon a chyfeiriad hefyd ar effaith pridd asidig ar bethau. Roedd yn astudiaeth gyfoethog oedd yn sicr yn esbonio pwy ydym a lle rydym a'r cyfan wedi ei adrodd yn null diymhongar Rhys Mwyn ac yn cynnwys nifer o straeon a sylwadau difyr a ffraeth.

Paratowyd y baned gan Olwen, Rhiannon, Sian a Linda ac

enillwyd y raffl gan Olwen.

Nos Fawrth, Mawrth 10, estynnwyd croeso cynnes i nifer dda o aelodau, ynghyd â Meryl Davies, Llywydd Cenedlaethol y Mudiad, a'i ffrind Gwyneth, gan Menna. Dyma noson i ddathlu deugain mlynedd ers sefydlu cangen Llanrug ac mae Phyllis, Llywydd Anrhydeddus y Gangen, yn aelod o'r cychwyn. Braff iawn oedd cael croesawu Jean, Heuwen ac Avril yn ôl atom ac anfonir ein cofion gorau at Carys Wynne. Gyda thristwch am golli aelod annwyl a ffyddlon estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf â theulu Mair Parry a gwerthfawrogwyd teyrnged arbennig Meirwen Lloyd iddi yn Amlosgfa Bangor.

Gŵr gwadd y noson oedd Gwilym Bowen Rhys, ŵyr i Zonia Bowen, a aned yn Swydd Efrog, gwraig hynaws Geraint Bowen ac un a daflodd ei hun i bron bob agwedd o Gymreictod, un a frwydrodd yn ffyrnig dros yr iaith, dros ryddid i feddwl ac yn bwysicach dros y rhyddid i ddweud ei dweud! Ond yn bwysicach fyth un a sefydlodd fudiad Merched y Wawr.

Y mae Gwilym yntau wedi taflu ei hun i bob agwedd o Gymreictod, fel ei nain. Ef yw prif leisydd Bandana, ac mae CD 'Plu' yn trosglwyddo rhai alawon gwerin i blant ifanc. Llynedd bu'n cystadlu ar 'Cân i Gymru' gyda'i gân 'Ben Rhys'. Cafodd y fraint o gael cwmni Merêd ar 'Deg mewn bws' ac mae wedi ymddangos ar Rownd a Rownd. Ar hyn o bryd mae'n derbyn prentisiaeth ar sut i wneud clocisiau, agwedd bwysig arall o Gymreictod.

Roedd Gwilym yn sicr wedi adnabod ei gynulleidfa o'r

cychwyn, a chafwyd digon o chwerthin a chyffyrddiadau teimladwy. Mwynhawyd y gân 'Y Wasgod Goch', cân i gofio am gwmni amhrisiadwy Merêd. Llwyddodd i ganu 'Un o fy mrodyr i' a hynny ar gyflymder anhygoel, a mwynhad o'r mwyafrif oedd y gân 'Dŵr Tryweryn' - 'does dim yn well i neb na joch o ddŵr Tryweryn' sef y whisgi. Ffraeth iawn oedd y gân 'Cwyn gan y gŵr' - cân am wraig felltgedig - 'hen wiber ddigydwybod'. I orffen cawsom y glasur 'Cân y Concwest' a chan ei fod yn adnabod ei gynulleidfa cawsom y pennill olaf hefyd! Diolchwyd i Gwilym am orig hynod o ddifyr, gan Menna, a phob dymuniad da iddo i'r dyfodol i gadw'r hen draddodiadau yn fyw.

Wedi'r arlwy o gwmni Gwilym, paratowyd arlwy o luniaeth sawrus a melys gan aelodau'r pwyllgor. Dymunir diolch i'r pwyllgor am yr holl drefniadau chwaethus ac yn arbennig i'r Ysgrifenyddes, Bethanne. Diolch hefyd i Llinos am y Deisen arbennig i ddathlu'r deugain.

Cafwyd gair o ddiolch am y croeso i'r dathlu gan Meryl Davies. Atgoffwyd ni am y gweithgaredd cenedlaethol o gasglu Ategolion tuag at Ymchwil y Galon ac anogir ni i wneud y pethau bychain dros ein hiaith a'r Gymreictod'.

Enillwyr y raffl oedd Pat - llyfr 'Caeau a Mwy' gan Mudiad Merched y Wawr, a'r enillydd a gafodd cyclamen lliw rhuddem oedd y ddysgwraig ffyddlon, Jenny.

Ar Ebrill 14eg cawn gwmni'r naturiaethwr, Duncan Brown, gyda 'Llên Natur'.



Newyddion yr Ysgol Gynradd.



Bu'r dosbarth derbyn yn ymweld â'r orsaf dan.

Fel rhan o'u thema 'Fy Ardal', bu plant Blwyddyn 1 a 2 ar ymweliad â'r Swyddfa Bost cyn iddi gau, ac yn ddiweddarach yn y mis daeth Mr Dafydd W. Thomas i'r ysgol i ddangos lluniau a chreiriau yn darlunio'r newid yn y pentref.

Rhoddwyd gwahoddiad i'r rhieni, neiniau a theidiau ddod i'r ysgol i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda plant y Cyfnod Sylfaen, a chafwyd cyngerdd ardderchog a llond neuadd o gynulleidfa.

Bu holl blant y Cyfnod Sylfaen hefyd yn dathlu Diwrnod y Llyfr, gan wisgo fel rhai o'u hoff gymeriadau.

Daeth yr Heddwes Dylan Pritchard i siarad â phlant Blwyddyn 1,2,3 a 5.

Fel rhan o'u gwaith ar thema 'Y Celtiaid', bu Blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad â Melin Llynnon ym Môn.

Cafodd plant Blwyddyn 6 gyfle i fwynhau athletau dan do.

Yn ystod y mis hefyd, daeth Mrs Eurgain Prysor Jones ar ymweliad â'r ysgol i son am bentref Capel Celyn a'r cyfnod pan foddwyd yr

ardal i greu cronfa ddŵr. Roedd hi'n un o ddisgyblion olaf Ysgol Capel Celyn. Cafodd disgyblion o wahanol ysgolion dalgylch Ysgol Brynrefail y cyfle i ddod draw i Lanrug i wrando arni, ac i fwynhau'r ffilmiau, y lluniau a'r creiriau.

Llongyfarchiadau i bawb o'r ysgol a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Yn y Cylch daeth y parti deulais a'r parti llefaru yn gyntaf. Bu Nanw Llwyd a Cameron Shaw yn llwyddiannus ar yr unawd chwythbrennau a'r unawd llinynnol, a chafodd Erin Awel gyntaf ar y llefaru Blwyddyn 3 a 4. Roedd Tomi Llywelyn yn gyntaf ar yr unawd alaw werin a'r unawd Blwyddyn 5 a 6. Daeth llwyddiant hefyd i Buddug Pennant ar yr unawd cerdd dant Blwyddyn 3 a 4. Roedd genethod Blwyddyn 3,4,5 a 6 yn rhan o dim Angylion Kelly a ddaeth yn ail a thrydydd ar y cystadleuthau dawnsio disgo.

Ymlaen i Eisteddfod y Sir a chafodd Nanw Llwyd a Cameron Shaw lwyddiant eto, a byddant yn teithio i Gaerffili ar gyfer y Genedlaethol. Trydydd oedd y parti llefaru a'r parti deulais. Trydydd hefyd oedd Tomi Llywelyn a Buddug Pennant yn eu cystadleuthau hwythau, ond daeth Tomi yn ail ar yr alaw werin.



Parhad LLANRUG



Cadw Llanrug yn Dacrus



Mae ysbwriel yn cael ei adael ar lwybrau cyhoeddus Llanrug. Yn ddiweddar aeth rhai gwirfoddolwyr i glirio un llwybr byr a chasglwyd tri bagiad o ysbwriel a oedd yn cynnwys papur, cartonau plastig, poteli a baw cŵn mewn bagiau.

Mae bwriad i drefnu casgliadau ar un diwrnod pob mis ar wahanol lwybrau o fewn y pentref a buaswn yn ddiolchgar pe byddai mwy o wirfoddolwyr yn gallu ymuno â'r criw bach sydd wedi cytuno hyd yma. Mae'r cyfarpar angenrheidiol ar gael a gwnaed trefniadau i'r bagiau gael eu casglu gan y Cyngor Sir.

Os ydych am ymuno â'r criw o wirfoddolwyr, cysylltwch ag Olwen ar 674839.

Y gobaith yw cael digon o wirfoddolwyr fel y gallwn gael pentref y gallwn fod yn falch ohono.

Enillwyr Clwb Cant Plaid Cymru am fis Mawrth oedd: 1. Carys Jones, Penisarwaen; 2. Meirwen Lloyd, Llanrug.

Noson Blasu Gwin

Noson hwyliog yng nghwmni y Parch Marcus Robinson yn Neuadd Bethel nos Wener, Ebrill 24 2015 am 7.00 o'r gloch. Dowch i ymuno â ni am noson o hwyl. Bydd elw'r noson yn mynd i Grwp Apel Uned Cancr a Haematoleg Alaw. Mynediad yn £10.00. Tocynnau i'w cael gan Kathryn Jones: ffon 01248 670501 neu galw yn Y Ddolwen, Bethel.

Diolchiadau Dymuna Marina Williams, Rhosyda, Didfa, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Diolch yn fawr.

Profedigaethau Yn dawel ar 29ain o Chwefror ar ôl gwaeledd byr bu farw Mair Parry, Tir-Na-Nog, Bryn Moelyn, yn 69 mlwydd oed. Bydd colled fawr ar ei hôl gan ei ffrindiau yma yn Llanrug ac anfonwn ein cydymdeimlad diffuant i'w chwaer a'i brodyr a'u teuluoedd, ei chwaer yng nghyfraith, Margaret ac Ernie Jones, Deiniolen, a theulu estynedig yma yn Llanrug. Casglwyd arian er cof amdani tuag at Feddygfa Llanberis.

Yn 106 mlwydd oed, bu farw Mrs Maud Jones, Caernarfon, mam annwyl Selwyn Jones a Vera. Bydd colled fawr i'r teulu i gyd, er ei hoedran hynod roedd yn rhan fywiog o'r teulu.

Bu farw Mrs Gertir Kirkpatrick, gynt o Hafan Elen, yn dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun. Roedd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Cafodd ofal tyner yn y Cartref ond roedd Ellen, ei chwaer, wedi gofalu amdani am flynyddoedd yn 4 Hafan Elen, hyd nes y daeth yn amser i Gerti fod angen gofal arbenigol.

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Ellen Jones a'r teulu yn eu profedigaeth a'u colled.

Cofion yr un pryd at Ellen, sydd ddim yn dda.

Dymuna Gethin, Howyn a Bethan ddiolch i bawb a gyfrannodd ar achlysur eu pen-blwyddi yn ôl ym mis Tachwedd y llynedd. Fe gasglwyd £1,600 tuag at Antur Waunfawr, Cronfa Ieuenctid Cymdeithas y Deillion, Menter Fachwen ac Ysgol Pendalar.

Llongyfarchiadau Mae Lleucu Briallt Brookes a Miriam Catrin Lennon-Jones wedi cael eu dewis i fod yn rhan o gast Les Miserables, Ysgolion Cymru. Cawsant eu dewis allan o 250 o blant i fod yn rhan o'r cynhyrchiad fydd yn cael ei berfformio yng Nghanolfan y Mileniwm ym mis Hydref. Da iawn chi – sêr y West End o Lanrug efallai?

Dyweddiad Dymunwn bob hapusrwydd i Gareth Eifion Jones a Cheron Jade Hicks ar eu dyweddiad. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau.

SEFYDLWYD DROS 20 MLYNEDD

SYNUD A CHADW

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmereydd@btinternet.com

Blodau Racca

PENISARWAUN

Rhodd o'r Galon Yw Blodau

- Basgedi Planhigion
- Basgedi Crog
- Planhigion Gardd

Hefyd, Compost ar werth

Rhif Ffôn
(01286) 870605

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR

DEWCS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a

John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Llun ysgol Dolbadarn tua 1956



Cefn chwith i'r dde: R E Jones (Prifathro), Barry Thomas, Colin Jones, Glyn Williams, Selwyn Allsup, Ieuan Williams (Sac), Iwan Williams (Jiws), Miss Burgess (Mrs Larsen)

Leon Lambrecht, Vivian Williams, Gwyndaf Hughes, Sheila, Eurwen, Kathleen Riley, Sylvia Williams, Patricia Jones, Lesley Roberts (Salmon), ??, Roy Roberts

Maureen, Alwen, Doreen, Mary Wyn, Ceridwen, Judith (Castle), Ann Roberts, Ann Gwendolene, Muriel,??

Diwrnod Creu DEINIOLEN Creative Day

28 Mawrth / March, 2015 - 10am-3pm

Tŷ Elidir, Deiniolen, Gwynedd

AM DDIM / FREE

Diwrnod hwyliog a chreadigol i blant, pobl ifanc a theuluoedd Deiniolen a'r cych. Mae Grŵp Dyfodol Deiniolen yn cynnal diwrnod o weithgareddau creadigol ar ddiwrnod cyntaf gwyllau'r Pasg! Dewch i greu, sgwrsio a chael hwyl. Mae'r gweithgareddau yn **PHAD AC AM DDIM** ac yn agored i baw o'r ardal. Da'n'n argymhell eich bod yn archebu lle; ond mae croeso i ddi alw hebilio ar y diwrnod i weld os oes lle ar ôl!

A fun and creative day for children, young people and families from Deiniolen and surrounding areas. Grŵp Dyfodol Deiniolen (Future of Deiniolen Group) is holding a day of creative activities on the first day of the Easter school holiday! Come along to make, chat and have fun. Activities are **FREE** and are open to everyone in the village and local area. We advise you to book a place but please pop in on the day if you like to see if there is space still available!

10am-11am: Sesiwn Caru Cerdd / I Love Music Session

Gweithdai cerdd hwyliog i ddal dychymyg plant 7-11oed gyda thiwtoriaid profiadol Canolfan Gerdd William Mathias. Does dim angen unrhyw brofiad cerddorol blaenorol / Fun musical workshops to capture the imagination of children aged 7-11yrs old with experienced tutors from the William Mathias Music Centre. No previous musical experience needed.

11:30am - 1pm: Gweithdy Celf / Art Workshop

Cyfle i greu addurn i'ch ffenestr wedi ei ysbrydoli gan thema 'Y Gwanwyn'. Gweithdy yng nghwmni'r artist Rhian Catrin Price ar gyfer plant a theuluoedd. / An opportunity to create a decoration to display in your window inspired by the theme of 'Spring Time'. Session will be led by artist Rhian Catrin Price and is suitable for children and families.

1:30pm-3pm: Gweithdy Creu Pendant Metel / Metal Pendant Making Workshop

Gweithdy gemwaith gyda'r dylunydd lleol, Karen Williams, i greu pendant gan ddefnyddio copr. Dysgwch sgiliau newydd a chreu darn o emwaith unigryw i fynd adref gyda chi! Yn addas i blant a theuluoedd. / Jewellery workshop with local designer, Karen Williams, to design and make a copper pendant. Learn new skills and make a unique piece of jewellery to take home with you. Suitable for the whole family.

PWYSIG / IMPORTANT Mae'n rhaid i blant gael eu goruchwyllo gan riant / gwarcheidwad yn ystod yr holl sesiynau - Children must be supervised by a parent / guardian during each session.

Paned, diodydd ysgafn a bisgedi ar gael / Hot and cold drinks & biscuits available

www.dyfodoldeiniolen.wordpress.com

Twitter: @GDDeiniolen / 07733 262723

dyfodoldeiniolen@yahoo.com

E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

Gwesty Dolbadarn

Llanberis

Ffôn-(01286)-870277



EISTEDDFOD RHANBARTH ERYRI

DYDD SADWRN 7fed MAWRTH 2015

Gobeithio bod ganddo’ch ddigon o ‘betrol’ yn y car oherwydd mae’r daith i Gaerffili, ddiwedd mis Mai, yn un hir a throellog. Ond i ddisgyblion Brynrefail fe ddechreuodd y siwrne ar

ddydd Sadwrn, 7fed Mawrth, pan gynhaliwyd Eisteddfod Rhanbarth Eryri yma yn neuadd Ysgol Brynrefail. Bu cystadlu brwdfrydig dros ystod o gystadlaethau ac ar ddiwedd y dydd bu llwyddiant aruthrol fel a ganlyn:

Unawd Merched BI 7-9

2il Leisa Gwenllian

Parti Merched BI 7, 8 a 9

1af Ysgol Brynrefail

Côr BI 7, 8 a 9

1af Ysgol Brynrefail

Unawd Chwythbrennau BI 7-9

1af Rachel Franklin

Unawd Llinynol BI 7-9

3ydd Ynyr Pritchard

Unawd Pres 7-9

1af Owain Thomas

Llefaru Unigol 7-9

1af Leisa Gwenllian

Grwp Llefaru 7, 8 a 9

1af Ysgol Brynrefail.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd a’r rhai fu’n eu hyfforddi



Leisa Gwenllian
Eisteddfod yr Urdd,
Rhanbarth Eryri

1af Llefaru Unigol BI7-9



Rachel Franklin,
Eisteddfod yr Urdd,
Rhanbarth Eryri

1af Unawd Chwythbrennau
BI7-9



Owain Thomas.
Eisteddfod yr Urdd,
Rhanbarth Eryri

1af Unawd Pres BI7-9

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



CWMNI THEATR CATSPA

Ar ddechrau mis Mawrth fe gafwyd cyflwyniad cyfoes gan gwmni Theatr Catspaw. Sefydlwyd y cwmni yn 1996 gyda’r amcan o amlygu materion o gamdriniaeth o fewn yr aelwyd.

Mae’r nifer helaethaf o ddigwyddiadau trais neu ymosodiadau rhywiol yn gysylltiedig gyda phobl ifainc rhwng 13-16 oed.

Mae’r cynhyrchiad yn canolbwyntio ar ddigwyddiad trawiadol rhwng merch a’i chariad a’i ffocws ar y cysyniad o ‘ganiatâd’. Fe glywir ac fe welir y sefyllfa o safbwynt y ferch a’r bachgen.

Roedd y gynulleidfa o ddisgyblion blwyddyn 10 yn gwyllo a gwrando fel rheithgor anffurfiol a chael y cyfle i drafod beth ddigwyddodd. Yn y ffordd hyn mae realiti y gyfraith a’r goblygiadau yn cael eu harchwilio mewn manylder.

Trefnwyd y cyfan gan Ms Gwenno Hughes, Cydlynnydd Bagloriaeth dan 16 fel rhan o waith cwrs bagloriaeth blwyddyn 10



DIWRNOD Y LLYFR 2015

Dydd Gwener 6ed Mawrth

I ddathlu Diwrnod y Llyfr 2015 cafodd dosbarth 7i drafodaeth gyda’u hathrawes, Mrs Catherine Bailey, am pa lyfr yn Saesneg oedd y mwyaf poblogaidd ac yn cael ei fenthg o’r Llyfrgell a’i ddarllen yn fwyaf cyson. Ar y brig, ac ymhell ar y

blaen i unrhyw lyfr arall oedd y gyfres ‘Diary of a Wimpy Kid’ gan Jeff Kinney. Ond fel y gwelwch ar y llun y mae disgyblion 7i yn frwdfrydig yn eu darllen o nifer o awduron cyfoes.



Ar ben arall i'r lein

Tydi materion yn ymwneud â Llyn Padarn yn ddiddiwedd 'dwch. Bore 'ma (19 Mawrth) roedd erthyglau yn y papurau lleol ynglŷn â rhai trigolion yr ardal wedi deffro o'r diwedd ac yn dechrau gwrthwynebu'r cynnig i'r orsaf bŵer dŵr sydd yn cael ei chynnig yn Glyn Rhonwy. 'Roedd criw wedi casglu i ddangos eu gwrthwynebiad ar lannau llyn Padarn rhai dyddiau yn ôl. Chawsom ni fel cymdeithas ddim rhybudd o'r cyfarfod, ond mae hyn yn dangos be sydd wedi bod yn digwydd gyda phroblemau'r llyn, sef dim cydweithredu ac wedyn gwrthwynebu'n gadarn gyda'n gilydd. Efallai bod tro ar bethau o'r diwedd.

Cofiwch mae hawl cynllunio wedi ei roi i adeiladu'r orsaf ers peth amser. Yr unig beth sydd ar y gweill rwan ydi cael mwy o hawl i wneud yr holl beth yn llawer mwy. Y tebygrwydd yw y bydd hyn yn cael ei ganiatau gan fod y faner fawr o dri chant o swyddi yn cael blaenoriaeth dros bopeth. Ond be fydd y canlyniadau wedyn tybed, efallai bydd llawer mwy na thri chant o swyddi yn y fantol drwy ystyried y niwed amgylcheddol ddaw fel dilyniant i'r cynllun. Ond, wrth gwrs, mae rhai yn dweud 'rhaid cael 'lectric dim ots be di'r canlyniadau'.

Felly be sy'n sefyll rhyngom ni â'r difrod mawr 'ma sydd i ddod – wel, wrth gwrs, y corffsydd i fod i warchod yr amgylchedd yma yng Nghymru yw Cyfoeth Naturiol Cymru, rhain yw disgynyddion Asiantaeth yr Amgylchedd, a dyma ble mae'n ddiddorol. Pan ddaeth y cais cynllunio cyntaf i'r golwg roedd Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cyngor Cefn Gwlad yn gwrthwynebu'r datblygiad oherwydd peryglon amgylcheddol. Pan ddaeth y cais o flaen y cyngor 'roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei eni, a be ddigwyddodd wedyn? wel tynnu'r gwrthwynebiadau yn ôl wrth gwrs a thrwy hyn fe ganiatawyd y cais. Be oedd y rheswm am hyn tybed? Fodd bynnag mae'r bêl nawr yn ôl yn eu dwylo, gan ta waeth am unrhyw ganiatâd cynllunio mi fydd rhaid cael

caniatâd amgylcheddol cyn dechrau ar y gwaith. Cawn weld be fydd eu safbwynt ar hyn. Os aiff y peth yn ei flaen yna nid Cyfoeth Naturiol fydd yma ond anialwch amgylcheddol.

Tydi penderfyniadau CNC ddim yn argoeli yn dda i ni fel pysgotwyr sy'n pryderu am ddyfodol ein dyfroedd. O bosib rydych wedi syrffedu arna i yn pregethu am broblemau eraill sy'n effeithio ar yr hen lyn 'na a sut effaith mae problemau carthffos a datblygiad gorsaf Drydan Dinorwig yn ei gael ar y fro. Mae CNC wedi cyhoeddi dau adroddiad ar be sy'n achosi'r trafferthion. 'Roedd yr adroddiad cyntaf yn wallus a bu'n rhaid cael gorchymyn yr Uchel Lys i gynnal ail ymchwiliad. Daeth canlyniadau'r ail ymchwiliad allan cyn Nadolig 2015, eto nid yw'r adroddid yn canolbwyntio ar be sy'n effeithio ar ein pysgodfeydd, yn enwedig y torgoch. Unwaith eto mae wedi ein gorfodi i ddychwelyd i'r llys i ofyn am adolygiad barnwrol unwaith eto. Mae'r cais gyda'r llys, bydd yn rhaid i CNC ymateb erbyn dechrau Ebrill.

Be sy'n siomedig yw'r ffordd mae'r corff yma yn ymdrin â materion pwysig sy'n ymwneud â difrod sylweddol i'r amgylchedd, Mae fel petaent yn ceisio pob ffordd i beidio gorfod dod i benderfyniad sy'n pwyntio'r bys at fusnesau mawr, yn enwedig rhai sydd i fod i gael eu plismona gan CNC.

Rhaid cadw mewn cof, wrth gwrs, mai meistri Cyfoeth Naturiol Cymru yw gweinidogion ei Llywodraeth yng Nghaerdydd. Rydym ni fel pysgotwyr yn berffaith sicr fod rhywbeth mwy na charthffos yn drewi o amgylch y lle 'ma.

Dyma ddiwedd ar y bregeth am y tro, a throi at y 'sgota. A do mi 'es allan ar y diwrnod cyntaf, sef 3 Mawrth, fel arfer i lawr i Finiog, rhyw awr a hanner gefais cyn troi am adref a, fel arfer, dim i'r badell. Ond mewn gwirionedd mae'n rhaid iddi gynhesu tipyn cyn gweld unrhyw gynnwrf ym myd y pryfetach.

I'r rhai sy'n awyddus i gael blas ar sgota, a chael tipyn o hyfforddiant gyda'r enwair a hefyd â'r saethu colomennod clai. Dydd Mercher, 27 Mai, sydd wedi ei benodi fel diwrnod agored i bawb gael blas. Y lleoliad fydd Gwesty Seiont Manor, Llanrug. Os am fwy o wybodaeth, mi fydd popeth ar www.sgll.co.uk unwaith y bydd rhai manylion wedi eu setlo.

Huw Price Hughes



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Gobaith

Rhyw dridia' cyn diwedd Chwefror
a'r Grawys fel gefail o dynn,
Aderyn y to fu'n ddi-dor
byncio i'w bartner o'r fan hyn.

Cannoedd o engyl mewn gerddi
eiddilwch a phurdeb fel'r ôd
a 'nodau'r' deffro eleni
yn sacrament cylchdro y rhod.

Daeth fflach a sglein o'r helygen
a'r gwaiil llwyd-ysig yn lew
yn herio stormydd y gefnen
a'i chathod yn herio y rhew!

Gwn y bydd eto ystormydd
a'r cesair yn curo – a'r glaw...
ond heddiw, bu'r tri lladmerydd
drwy bopeth yn gweld y 'tu draw'.

Norman Closs



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Llongyfarchiadau i holl blant y pentref ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Arfon ac Eisteddfod Rhanbarth Eryri yn ddiweddar, a phob lwc i'r rhai fydd yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerffili ym mis Mai.

Eisteddfod Cylch Arfon, 28ain o Chwefror 2015

Unawd Blwyddyn 3 a 4	2ail Osian Trefor Hughes
2ail Erin Wyn Williams	Cerdd Dant blwyddyn 5 a 6
Unawd Blwyddyn 5 a 6	1af Osian Trefor Hughes
3ydd Osian Trefor Hughes	2ail Dafydd Christion Bean
Alaw Werin Blwyddyn 5 a 6	Deuawd
2ail Osian Trefor Hughes	1af Ioan a Dafydd Bean
Llefaru Blwyddyn 5 a 6	1af - Can Actol

Eisteddfod Rhanbarth Eryri, Mawrth 14eg.

1af - Can Actol
Cerdd dant Blwyddyn 5 a 6
1af Osian Trefor Hughes
Llongyfarchiadau hefyd i holl blant oed uwchradd y pentref sydd yn aelodau o gôr a phartion Ysgol Brynrefail sydd hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn Eisteddfod Rhanbarthol Uwchradd, a dymuniadau gorau iddynt hwythau hefyd yng Nghaerffili.

Clirio sbwriel



Hoffai'r Cynghorydd Elfed Williams ddiolch i griw Menter Fachwen am glirio ysbwriel tu allan i adeilad Tŷ Elidir a thir ger y Llyfrgell yn ddiweddar. Casglwyd 11 bag yn llawn ysbwriel, diolch yn fawr am eu gwaith.



Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael eu dewis fel Brenhines yr Ŵyl a'r Cwrt ar gyfer 2015.
Brenhines - Kelen Joy Hughes; Tywysoges - Angharad Jones; Tywyswr - Callum Taylor; Merch y Blodau - Elliw Haf Tate; Tywyswr Bach - Harry White.

Llongyfarchiadau i Martin a Rosina Worth ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwil a Marina Jones, Ffordd Deiniol, ar ddathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Cymdeithas Undebol Deiniolen Yng nghyfarfod y Gymdeithas nos Lun, Chwefror 23ain, yn Nhŷ Elidir o dan lywyddiaeth y Parch John Pritchard, croesawyd Mr Wyn Peate atom a chafwyd noson ddifyr dros ben. Roedd yn sôn am ei yrfa fel hyfforddwr gyrru, y profiadau gwahanol gafodd gyda'i ddisgyblion a dim un diwrnod yn debyg i'w gilydd. Diolchwyd iddo gan Mr Brian Price.

Diolch Dymuna Ernest, Margaret a Jennifer ddiolch o galon i ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth o golli mam a nain. Diolch am y rhoddion



Llongyfarchiadau i Elin Dafydd a ddaeth yn ail mewn cystadleuaeth bandiau pres, Pencampwriaeth Gogledd Cymru yn Galeri ar y 7fed o Chwefror. Da iawn ti.

tuag at Gyfeillion Ysbyty Eryri Caernarfon.

Diolch Yn dilyn ei phen-blwydd yn 100 oed yn ddiweddar, dymuna Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa ddiolch o waelod calon i'w ffrindiau yn Neiniolen ac aelodau o Eglwys Crist Llandinorwig am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd. Diolch i staff Abacare a Cartrefi Cymunedol Gwynedd am y blodau bendigedig.

Mae'n byw yn Maes Gwylfa ers 1948 ac yn wirioneddol ddiolchgar am haelioni a chyfeillgarwch pobl y pentref dros y blynyddoedd. Diolch yn arbennig i'r gofalwyr am eu gofal a'u parodrwydd i helpu ac i Eadie o'r llyfrgell, Nia am yr Eco ac i Tommy, rhif 6 gynt, am ddod â'r TV Guide hollbwysig wythnosol. Diolch hefyd i'r Parchedig Carol Roberts, Ficer Llandinorwig, am y cerdyn a'r blodau a hefyd i'r Parch Jeffrey Hughes, Ficer Santes Helen, Penisarwaun.

Cafodd ddiwrnod i'w gofion yn dathlu ei phen-blwydd arbennig yng nghwmni ei theulu a ffrindiau.

Dymuniadau Gorau i Malcolm Lloyd Jones, Stryd Fawr, sydd yn yr ysbyty ym Manceinion yn disgwyl triniaeth. Brysia wella, Malcolm.

Merched y Wawr Thema cyfarfod Chwefror 16eg oedd noson yr aelodau 'fy nhrysor i'. Cafwyd noson hynod ddifyr gyda sawl aelod wedi dod â'u trysor i ddangos gan adrodd yr hanesion pam roedd y trysorau yn golygu cymaint iddynt. Darparwyd lluniaeth flasu gan yr aelodau a chafwyd bisgedi a chaws a siwtnei cartef Linda gyda gwydriad o win i orffen noson ddifyr.

Coed Mawr, Ffordd Marchlyn
Deiniolen,, Caernarfon
Gwynedd
LL55 3LU

Mawrth 2015
Llythyr agored at fusnesau a chefnogwyr lleol yn Neiniolen

Annwyl gefnogwr
Eisteddfod Deiniolen
Rwy'n ysgrifennu atoch ar ran Pwyllgor Eisteddfod Deiniolen. Mae'r Eisteddfod yn ddigwyddiad di-elw blynyddol sy'n cael ei threfnu yn y pentref gan griw bychan, gweithgar. Mae angen arian i gynnal yr eisteddfod – i roi gwobrau i gystadleuwyr ac i dalu costau beirniaid ac ati. Fel pwyllgor, rydym yn ddibynnol ar grantiau a chyfraniadau i wneud hyn. Fel sefydliad lleol, rydym yn gofyn i chi ystyried cynnig rhodd ariannol er mwyn hybu gwaith yr Eisteddfod. I ddiolch am eich cyfraniad, bydd eich enw yn cael ei restru gyda chyfranwyr a noddwyr eraill yn rhaglen yr eisteddfod, a fydd yn cael ei gweld gan nifer fawr o'r cyhoedd yn lleol ac yn ehangach.

Yn gywir iawn
Miss Elliw Geraint Hughes
(Is-ysgrifennydd Eisteddfod Deiniolen)



Y Dywysoges Frenhinol yn ymweld â'r Antur



Y Dywysoges yn cyfarfod tîm y Sgubor Grefftau

Croesawodd menter gymdeithasol leol Antur Waunfawr ymwelydd arbennig iawn mis diwethaf, pan ddaeth y Dywysoges Frenhinol yno i gael gwybod ychydig mwy am eu gwaith.

Melfyn Parry, Gareth Griffiths a Yolande Scott, rhai o weithwyr yr Antur, oedd ymhlith y cyntaf i gyfarch y Dywysoges, fel roedd Cadeirydd y Bwrdd, John Gwynedd Jones yn ei thywys o gwmpas y safle.

Roedd croeso cynnes iawn yn aros i'r Dywysoges yng Nghaffi Blas y Waun, lle rhoddodd y tîm (Ann Thorman, Val Rowlands, Peter Thomas, Gareth Griffiths a Bridgette Hughes) syniad o'u dyletswyddau bob dydd iddi, gan gynnig paned o goffi a darn o fara brith cartref!

Yna, cafodd y Dywysoges ei hebrwng i'r Sgubor Grefftau, siop grefftau'r Antur, lle dangosodd Peter Thomas, Michael Jones a Gemma Williams iddi sut maent yn creu darnau hardd o gelf allan o eitemau wedi'u hailgylchu. Cyflwynodd Gweithiwr Anwen Fletcher blac a wnaed â llaw i'r Dywysoges, er mwyn cofnodi ei hymweliad â'r Antur.



Michael Jones yn cyfarfod y Dywysoges



Y Dywysoges yn cyfarfod tîm y Caffi

Tra yn y Sgubor Grefftau, cyfarfu'r Dywysoges â Sioned Harris a Gwion Davies, merch a mab Mr R Gwynn Davies, sylfaenydd Antur Waunfawr. Mae Sioned yn wirfoddolwr ers tro yn y sefydliad, a Gwion yn un o'r defnyddwyr gwasanaeth, ac yn bendant yr ysbrydoliaeth y tu ôl i'r cysyniad o Antur Waunfawr.

Symudodd y parti i'r Sgubor Fawr, lle esboniwyd y gwasanaeth sy'n cynnig cymorth i oedolion ag anghenion dwys i'r Dywysoges. Cyfarfu'r Dywysoges â defnyddwyr gwasanaeth Kriss Williams, Steffan Jones, Emyr Jacks, Katie Burke a Nathan Harris.

Yna, aeth y Dywysoges a'r parti o amgylch y gerddi a'r parc, ac fe'i dangoswyd i'r poli-dwnnel a'r lleiniau llysiau, lle mae tîm yr Antur (defnyddwyr gwasanaeth Lee Royle, Mark Taylor a Sion Jones, gyda chefnogaeth rheolwr Joe Anderson) yn gweithio i dyfu bwyd ffres eu hunain.

Cyfarfu'r Dywysoges gyda chynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned Waunfawr yn ystod ei hymweliad.



Joe Anderson yn sôn am y prosiect bwyd



Anwen Fletcher yn rhoi anrheg i'r Dywysoges



Gill Owen yn dangos crefftau'r Antur i'r Dywysoges

Ysgol Waunfawr

Dreigiau Doeth



Bydd y Dreigiau Doeth yn gwobrwyo plant am ymdrechu i siarad a chwarae yn Gymraeg ar yr iard.

Gemau Buarth Un o dasgau'r Cyngor Ysgol wrth iddynt fynd ati i wneud gwaith gyda'r Siarter Iaith oedd hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar yr iard. Bu pawb wrthi'n brysur yn adfywio hen gemau yn ogystal â dyfeisio rhai newydd a chafodd bawb andros o hwyl.

Eisteddfod yr Urdd Hoffem longyfarch y plant sydd wedi bod yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn ddiweddar.

Efa Llwyd am ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth unawd piano Bl 3 – 6;

i'r Parti Canu a ddaeth yn 2il;
i'r Parti Llefaru am ddod yn

3ydd;
Grŵp Ensemble Pres am ddod yn 3ydd.

Llongyfarchiadau hefyd i'r canlynol yn yr Adran Gwaith Celf

Blwyddyn 5 a 6 Lluniadu 2D
1af - Beca Elan Parry; 2ai - Poppy Burns; 3ydd - Mabon Roberts.

Blwyddyn 3 a 4 Lluniadu 2D
1af - Ellie Gosset
3ydd - Gruffydd Llwyd

Bydd y cyntaf a'r ail yn mynd i'r gystadleuaeth sir ym Mhenygroes dydd Llun a cewch fynd i weld y gwaith

Gala Nofio Ysgolion Arfon Llongyfarchiadau mawr i'r tîm nofio a ddaeth yn gyntaf yn y Gala Nofio i Ysgolion Arfon da iawn chi.

Bwyd y Byd Fel rhan o'u thema Gourmet Byd Eang bu blwyddyn 3 a 4 yn ymweld ag Archfarchnad Tesco yng Nghaernarfon ddiwedd mis Chwefror. Roedd y plant wedi mwynhau yn arw gan ddysgu am fasnach deg a chael llond bag o anrhegion yr un. Diolch i staff Tesco am fod mor groesawgar.

Wythnos Cymru Cŵl Trefnodd y Cyngor Ysgol nifer o weithgareddau dros yr wythnos i ddathlu Gŵyl Ddewi. Lluniodd ddisgyblion bl 6 bamffledyn gwybodaeth ar gyfer y rhieni yn nodi'r gweithgareddau isod.

Gweithgareddau Wythnos Cymru Cwl - Mawrth 2il-6ed 2015				
Dydd Llun 2/3/15	Dydd Mawrth 3/3/15	Dydd Mercher 4/3/15	Dydd Iau 5/3/15	Dydd Gwener 6/3/15
Gwasanaeth Dathlu Dydd Gŵyl Ddewi	9:30 – Blwyddyn 3/4 Sioe Sleidiau – Gareth Roberts am yr ardal	Gwneud cebab Gemau buarth Babanod	Diwrnod y Llyfr – Gwisgo fel cymeriad o Lyfr Lori Ni y fan Lyfrgell	Bl 3-6 Taith Gerdded Mapiau Ardal Waunfawr
Gorymdaith drwy'r pentref	Sioe Sleidiau Bl 5/6 Babanod – Cacennau gri	Cinio Gŵyl Dewi	Gweithgareddau ar Lyfrau	Babanod - Dawnsio Gwerin
Gweithgareddau am Gymru				
Adran Iau - Dawnsio Gwerin	Babanod - Angharad Tomos Rwdlan	Bl 5 - Dawns i Bawb	Bl 3 a 4 - Gemau Iard yn y Ganolfan	
Babanod - Creu cennin pedr / baneri Cymru	Bl 3 a 4 – Nofio/Tenis/Gymnasteg Bl 6 – Ysgol Llanrug – Cofio Tryweryn	Babanod – Ymweliad y Ddraig Goch		

dydd Mercher 1leg yn Neuadd
Goffa Penygroes rhwng 7 a
8.30yh.

Casgliad Ceiniog
Wythnosol Diolch i Beca Haf a Sion Gwyn o flwyddyn 6 am rannu pamffledyn am Golu Kumar y bachgen bach o'r India rydym yn ei nodd tuag at ei addysg. Telir £15.00 yn fisol i Action Aid, ond yn ddiweddar gwelwyd bod plant yn anghofio dod â'u ceiniogau wythnosol. Penderfynodd y Cyngor Ysgol ein bod am ail afael yn y prosiect ac am gael y plant i ddod â'u cyfraniad wythnosol ar ddydd Gwener o hyn ymlaen. I lansio ail gydio yn y prosiect gofynnwn

i bawb ddod â cheiniogau dydd Gwener, Mawrth y 13eg, byddwn yn gosod y ceiniogau o gwmpas y trac rhedeg ar yr iard.

Cymdeithas Rieni ac Athrawon Diolch i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am drefnu Sioe Ffasiwn yn y Ganolfan ddiwedd Mis Chwefror. Diolch i bawb, rhieni a thrigolion y pentref, a gefnogodd y noson; gwnaed elw o £500 tuag at yr ysgol.

Ymweliad Mr Andrew Settatree Unwaith eto hoffem ddiolch yn fawr i Mr Settatree am ddod i rannu cysyniad a symbolaeth wyau Pasg gyda ni. Dymunwn ninnau Basg Hapus i bawb.

Rhoi cymorth.



Llongyfarchwyd un o weithwyr Antur Waunfawr gan yr Arolygydd Brian Kearney ar ôl helpu dynes oedd wedi cwmpo yng Nghaernarfon yn ystod y mis diwethaf. Dyma Ann Thorman yn derbyn tystysgrif gan yr Arolygydd Kearney.

Mae enw Ann hefyd wedi cael ei basio ymlaen at Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu fel enwebai potensial ar gyfer gwobr yn y dyfodol.
Rydym i gyd yn hynod o falch o'i charedigrwydd a'i dewrder.

- Cyhoeddiadau mis Ebrill**
- 5: Parchg Olwen Williams
 - 12: Parchg Nan Wyn Powell Davies
 - 19: Miss Anna Jane Evans
 - 26: Mr John Roberts

Parhad WAUNFAWR

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Chwefror oedd: £30: Mr Bryn Pritchard, Min y Grug; £20: Dr Huw Roberts, Culfor, Ffordd Bangor, Caernarfon; £10: Mr W.M. Catt, Awel y Môr.

Sefydliad y Merched Yn y cyfarfod ar Fawrth Sed i ddathlu Gŵyl Ddewi y gŵr gwadd oedd Mr Dafydd Iwan. Eglurodd sut y daeth canu gwerin i fod, gan roi esiamplau i ni trwy ganu i egluro'r gwahanol fathau o ganeuon. Hefyd fe ganodd rai o'r caneuon sy'n boblogaidd ganddo. Diolchodd Pat iddo am brynhawn diddorol iawn, wedyn ymunodd â'r aelodau i gael te hyfryd wedi'i baratoi gan rai o'r aelodau.

Ar Ebrill 2il, y gŵr gwadd fydd Mr D. Seabourne Davies, yn sôn am ei waith fel Swyddog Diogelwch yn gofalu am y Frenhines a'r teulu brenhinol. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Diolch Estynnwn ein diolch i swyddogion Eglwys y Waun am gael defnyddio'r festri ar gyfer y gwaith o fwndelu yr Eco ar gyfer y pentrefi yn yr ardal.

Llongyfarchiadau i Mared Ynyr, Dolwar Fach, ar gyrraedd ei deunaw oed. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol, Mared.

Dathlu Pen-blwydd Priodas Llongyfarchiadau i Alfie a Heulwen, Hafod y Rhyg, a fu'n dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Croeso Adref o'r Ysbyty Dymunwn wellhad buan i Doctor Williams, Tros y Gors, wedi iddo dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Mae'n braf cael deall ei fod yn gwella ac wedi dod adref erbyn hyn.

Croeso adref hefyd i Guto Llywelyn, mab Iola a Rhys, Tegannedd. Treuliodd Guto gyfnod yn Ysbyty Gobowen yn cael triniaeth i'w droed, ac mae yn gwella erbyn hyn.

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Collfryn yn eu profedigaeth o golli mam, Meira, a oedd yn annwyl iawn iddynt ac yn nain garedig i'w wyresau a'i gor-wyrion a gor-wyres.

Eglwys y Waun Mae'r Barchedig Gwenda Richards yn ein gadael ddiweddd mis Mawrth ar ôl saith mlynedd ac yn mynd yn Weinidog ar Ofalaeth Dyffryn Nantlle. Fe fyddwn yn ffarwelio â hi ar 22 Mawrth ac yn dymuno bob bendith iddi yn ei gweinidogaeth newydd. Os oes gan unrhyw aelod broblem cofiwch gysylltu ag unrhyw un o'r blaenoriaid.

DINORWIG Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

Marwolaeth Unwaith eto y mis yma bu inni golli un o blant yr ardal drwy farwolaeth, sef Mrs Janet Bingham. Bu farw Janet yn Ysbyty Gwynedd ar 27 Chwefror yn 88 mlwydd oed. Yn ei blynedd oedd olaf yr oedd yn byw yn 28 Rhydfadog, cyn iddi orfod symud i Gartref Preswyl Penisarwaun rhyw ychydig fisoedd yn ôl. Cofiaf hi yn byw, pan yn ifanc, yn Tai Felin, Allt Ddu, yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Thomas R. Jones, cyn iddi briodi a symud o'r ardal. Cafodd ei dwyn i fyny yn Eglwys MC Dinorwig. Yr oedd yn chwaer i Daphne a Gwerfyl a'r ddiweddar Vera. Ganwyd iddi ddau o blant, sef Keith a'r ddiweddar Roselin. Ni fu Janet yr un fath ar ôl colli Rosalin gan ei bod yn byw yn ei hymyl yn Rhydfadog. Colled enbyd iddi oedd ei cholli rai misoedd yn ôl. Yr oedd yn nain ac yn hen nain ac yn meddwl y byd o'r plant i gyd.

Ar ôl dod yn ôl i fyw i Tan y Foel, daeth yn aelod ffyddlon i Eglwys MC Dinorwig unwaith eto, hyd nes y bu i'r capel gau. Ni ddaeth yn aelod i Gefn y Waun. Bu ei hangladd yn yr Amlogfa ym Mangor ar 6 Mawrth. Y gwasanaeth dan ofal Ficer y Plwyf, sef y Parch Ddoctor Carol Roberts., Llanberis. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth gan obeithio y cant nerth i ddal y golled. Yn angof ni chaiff fod.

Gwella Da yw deall fod y Parch William John Lewis wedi gwella yn ddigon da i gael gadael yr ysbyty, ac mae adref yn ôl ym Môn hefo Mattie, ei wraig. Gwas da a ffyddlon i ardal Dinorwig ac yn falch o gael dod i wasanaethu yr ardal bob amser. Daliwch i wella, Mr Lewis, llawer un wedi eich colli yma yn Ninorwig.

Cofion hefyd at Mrs Alice Griffith, hithau wedi bod yn yr ysbyty ac yn bur wael.

Hefyd Mrs Megan Morris, Minffordd, hithau wedi cartrefu yn dda yn Plas Garnedd, Llanberis. Cofion annwyl iawn atoch eich tri.



Hywel Williams

Llais cryf a lleol dros Arfon

‘Roedd hi’n bleser cyfarfod Ian a Wendy Hughes, Pantri, Llanberis. Enghraifft o fusnes sy’n cyfrannu i economi Arfon ac yn cyflogi pobl leol. Bydd Plaid Cymru yn cefnogi mwy na 80,000 o fusnesau bach a chanolig trwy dorri trethi busnes yng Nghymru a chael gwared ar drethi busnes yn gyfangwbl i 70,000 o gwmnïau gan roi hwb i'r stryd fawr’ - Hywel Williams

ETHOLIAD CYFFREDINOL SAN STEFFAN

DYDD IAU, 07 MAI, 2015

Hyrwyddwyd gan Llŷr ab Alwyn, 3 Bythynnod Dinas, Dinas, Caernarfon, LL54 5UA ar ran Hywel Williams, Plaid Cymru, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE



Plaid Cymru

Un funud fach ...

YSTYRIWCH Y LILI

Y lili wen fach a ddaw i'm meddwl i wrth glywed geiriau Iesu Grist yn y Bregeth ar y Mynydd, 'Ystyriwch lili'r maes'. Go brin mai am yr eirysiau y soniai Iesu chwaith. Mae'n bosibl mai cyfeirio'n gyffredinol a wnâi at flodau gwyllt. Does dim rhaid gwybod at ba flodau'n union yr oedd yn cyfeirio er mwyn deall ystyr ei eiriau. Ond ar ddechrau'r gwanwyn, cystal i ni feddwl am y lili wen fach ag am yr un blodyn arall wrth ystyried neges Iesu.

Ymddangosiad yr eirysiau yw un o arwyddion cyntaf deffro'r gwanwyn bob blwyddyn. Roedd eu gweld wedi ymwithio trwy'r pridd, a hyd yn oed trwy weddill dail pydredig yr hydref, yn rhyfeddod eleni eto. Mor eiddil yr olwg, mor brydferth a chywrair, ac eto mor gryf ac mor gyfuriog o fywyd. Daethant eto'n ernes o'r gwanwyn newydd y buom yn disgwyl amdano.

Mae Iesu'n ein hatgoffa mai Duw sy'n rhoi bywyd i'r blodau. Mae yna egni rhyfeddol ym myd natur, ac ym mhob eirlys bychan mae'r egni hwn ar waith yn sicrhau tyfiant a phrydferthwch. Ac eto, fe ddywed Iesu, 'Nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu'. Dweud a wna nad y blodyn ei hun sy'n gyfrifol am y tyfiant, ond Duw. Nid oes gan hyd yn oed y brenin Solomon, gyda'i gyfoeth a'i foethusrwydd diarhebol, wisg mor brydferth â gwisg 'blodau'r maes'. Ac y mae hynny, medd Iesu, am fod Duw yn rhoi bywyd iddynt ac yn eu cynnal.

Gellid tybio mai cyflwyno gwers natur y mae Iesu yn y rhan hon o'r Bregeth gan ei fod yn sôn hefyd am 'adar yr awyr' ac am 'laswellt y maes'. Mae'n pwysleisio mai'r Arglwydd Dduw yw Crëwr a Chynhaliwr byd natur a'i holl ryfeddod. Ond nid dyna'r prif beth y mae am ei ddangos chwaith gan mai defnyddio gofal Duw am fyd natur a wna er mwyn dangos a phrofi gofal Duw amdanom ni ei bobl.

Mae'n sôn am fyd natur ac am ofal Duw amdano er mwyn dangos nad oes angen i ni bryderu am unrhyw beth. Yr ydym ni'n fwy gwerthfawr yng ngolwg Duw na phethau mwyaf hardd a chywrair y Cread. Mae Duw'n deall ein holl anghenion, ac yn darparu ar ein cyfer. Mae Iesu'n dweud wrthym am ymddiried yn ein Tad nefol sy'n gwybod fod arnom angen bwyd a diod a dillad. At ddiwedd yr adran hon o'r Bregeth, mae Iesu'n dangos fod pawb yn ceisio'r pethau hyn, ond bod rhaid i'w ddilynwyd ef geisio pethau eraill ac amgenach.

'Ceisiwch yn gyntaf,' meddai, 'deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef.' Yn hytrach na threulio'n hamser yn poeni am bethau ac am yr hyn a all ddigwydd, fe ddylem geisio dod â'n holl fywyd dan awdurdod Duw, er mwyn iddo Ef deyrnasu ac er mwyn i bob dim yn ein bywyd ni ac ym mywyd ein cymdeithas fod yn gyfiawn yn ei olwg Ef. Cawn ein hannog i geisio hyn, gan gofio'r un pryd mai pethau a roir gan Dduw yw'r rhain hefyd.

JOHN PRITCHARD

Creu Rhestr o'r Clasuron Cymreig

Beth yw clasur? Oes gennych hoff lyfr yr ydych yn ystyried yn glasu'r? Os oes, mae ymgyrch a lansiwyd ar Fawrth Sed yn gofyn i ddarllenwyr Cymru enwebu eu clasuron ar gyfer rhestr o lyfrau a fydd yn cael ei ddosbarthu i lyfrgelloedd, siopau llyfrau a cholegau i annog eraill eu darllen a'u mwynhau.

Mae cyfle i ddarllenwyr leded Cymru enwebu llyfrau, yn nofel neu yn gasgliad o straeon byrion, trwy gasglu ffurflen o'u lyfrgell neu siop lyfrau lleol. Gallwch hefyd lawrlwytho copi o'r ffurflen enwebu o safleoedd gwe Llyfrgelloedd Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a Llenyddiaeth Cymru. Neu gallwch enwebu llyfrau ar Twitter trwy ddefnyddio'r hashnod #ClasurCymreig, neu drwy ebostio eich enwebiadau a'r rheswm dros eu henwebu at tynewydd@llynyddiaethcymru.org.

Cynigir gwobrau i'r enwebiadau sy'n cynnwys yr esboniadau gorau am eu dewis, yn cynnwys pryd o fwyd mewn bwyty moethus yng Nghymru a £50.

Trefnir yr ymgyrch gan bartneriaeth rhwng Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a Llenyddiaeth Cymru. Bydd arbenigwyr a beirniaid llên a enwebwyd gan y sefydliadau yn ffurfio panel i ddethol o'r enwebiadau a dderbynnir ac yn cytuno ar y rhestr derfynol o glasuron cydnabyddedig, yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ystod yr haf.

Nododd Jane Sellwood ar ran Gymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru: 'Mae gan lyfrgelloedd cyhoeddus ystod o lenyddiaeth o safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg i gynnig i ddarllenwyr. Bydd paratoi rhestr o'r fath gyda chymorth darllenwyr yn hybu darllen, ennyn trafodaeth ar beth yw 'clasur' ac awgrymu deunydd i ddarllenwyr 'newydd'. Bydd lyfrgelloedd trwy Gymru yn barod i gasglu enwebiadau darllenwyr i gefnogi'r ymgyrch cyffrous hwn.' Ychwanegodd Elwyn Jones, Prif Weithredwr y Cyngor Llyfrau: "Tra bod y Cyngor yn cefnogi a hyrwyddo gwaith awduron cyfoes mae hi bob amser yn bwysig i ni hefyd gofio am y clasuron sy'n cael eu darllen a'u mwynhau gan do ar ôl to o ddarllenwyr. Braf felly yw cael cefnogi'r ymgyrch hon gan awdurdodau llyfrgell ledled Cymru ac mae'n esiampl da o'r cydweithio sy'n digwydd i hyrwyddo llyfrau a darllen."

Meddai Lleucu Siencyn, Prif Weithredwr Llenyddiaeth Cymru: 'Mae'n gwestiwn cyson i ni lôn garwyr: beth i'w ddarllen nesaf? Mae sillfoedd blaen siopau llyfrau a lyfrgelloedd yn llawn awgrymiadau o lyfrau sydd yn gwerthu'n dda neu cyhoeddiadau newydd sbon. Ond bydd y rhestr hon yn ail-gyflwyno'r clasuron Cymreig i ni, ac yn denu cynulleidfâ newydd i'r llyfrau a ystyrir fel seiliau cadarn llenyddiaeth Cymru.'

Bydd yr ymgyrch Clasur Cymreig yn cael ei lansio ar Ddiwrnod y Llyfr, sef 5 Mawrth ac yn rhedeg hyd 30 Mai.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Hywel James, Prif Lyfrgellydd Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd ar 01286 679463 / HywelJames@gwynedd.gov.uk



ORIEL CWM
CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

POSH PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225



BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch **(01248) 361044**

D. P. OWENS RHIWLAS





O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod 17 Chwefror 2015

Cynllun Tai Gwynedd a Môn hyd at 2026

Adroddodd y Cyng. Charles Jones fod Cyngor Gwynedd bellach wedi gwrando ar bryderon a gynigwyd ac wedi newid y cynllun. Adroddwyd ymhellach o'r 61 a glustnodwyd ar gyfer Llanrug o 2011 i 2026, fod 14 wedi'u adeiladu a bod 33 arall wedi cawl hawl cynllunio yn barod. Felly, dim ond 14 o dai fydd angen hawl cynllunio o'r newydd hyd at 2026. Bydd y cyfnod ymgynghoriad yn parhau tan fis Mawrth 2015 a bydd mapiau newydd yn cael eu cyflwyno ym mis Hydref ac yna ymgynghoriad pellach. Yn dilyn y cyfnod yma, bydd y cynllun yn mynd i'r Cynulliad am eu sêl bendith.

Penderfynwyd anfon llythyr i Gyngor Gwynedd i dderbyn y cynllun ac anfon adborth positif. Hefyd, dylid anfon sylwadau pellach wedi i'r aelodau gael cyfle i bori dros y cynllun, ar y math o dai sydd eu angen yn Llanrug a'i fod yn hanfodol bwysig fod y Iaith Gymraeg yn cael ei hystyried mewn cynlluniau.

Llwybr ger Ogwen, Llanrug

Adroddwyd fod cyflwr y llwybr wedi gwaethgu yn ddiweddar.

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i adrodd am y sefyllfa a chanolbwyntio ar faterion Iechyd a Diogelwch.

Baw Cŵn

Adroddwyd fod y sefyllfa baw cŵn yn Llanrug yn gwaethgu. Roedd ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd yn cynnig dau fin baw ci. Mynegwyd pryder am Iechyd a Diogelwch y plant ar eu ffordd i mewn ac allan o'r ysgol. Adroddwyd fod baw ci y tu allan i siopau yn y pentref hefyd.

Adroddodd y Clerc fod plant yr ysgol Gynradd yn y broses o ddylunio poster i yn unol â'r hyn a awgrymwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ddiweddar.

Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir ar frys i ddatgan anfodlonrwydd â'r sefyllfa ac i sicrhau mwy o finiau baw cŵn.

Ffordd Bryngwyn

Adroddwyd fod y Cyngor wedi mynegi pryder ac anfodlonrwydd am gyflwr y ffordd yma, ac wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd. Derbyniwyd ateb gan Gyngor Gwynedd yn egluro'r broses i ail wynebu'r ffordd ond yn dilyn yr ymateb mynegwyd consyrn ar safon y gwaith, ei gyflwr cyfredol a'r effaith ar feicwyr, ceir a safon y gwaith yn gyffredinol. Fe adroddwyd hyn yn ôl i Gyngor Gwynedd, ond hyd yma ni chafwyd ymateb.

Cyflymder ar Ffordd Tan y Coed

Mynegwyd pryder fod gor-yrru ar Ffordd Tan y Coed.


Cae Chwarae Pwll Moelyn

Ar ôl derbyn sylwadau am gyflwr y cae a bod cerrig yn ymddangos arno. Oherwydd fod y cae yma yn cael ei ddefnyddio gan blant i chwarae pêl-droed, roedd y Cadeirydd wedi awdurdodi i'r cerrig a allai fod yn beryglus gael eu codi. Adroddwyd fod Llewod Llanrug yn ymchwilio i mewn i roi goliau newydd ar gaeau Pwll Moelyn a Chae Nant y Glyn ac i lefelu a gwella'r caeau.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ac i drefnu asesiad risg o'r cae.

Cae Chwarae Cwm y Glo

Darllenwyd nifer o ebyst gan y Cyng. Brian Jones am gyflwr cyffredinol y Cae Chwarae a materion eraill.



Ffenestri CADNANT Windows

iorwerthwilliams@fsmail.net

DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM

13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngorydd Brian Jones i drefnu cyfarfod ag ef i drafod ei bwyntiau.

Llwybrau Cyhoeddus

Yn dilyn ein cyfarfod diwethaf, rhestrwyd nifer o gwynion am sefyllfa rhai o lwybrau cyhoeddus yr ardal. Fe drosglwyddwyd rhain i'r Swyddog Priodol a derbyniwyd ymateb y buasai yn mynd o amgylch y llwybrau ac yn dod yn ôl atom gyda'i sylwadau.

Glanhau Pentrefi

Mynegwyd pryder gan yr aelodau fod llanast yn cael ei adael ar ôl y criw ail-gylchu, gyda photeli ayyb ar y ffordd. Penderfynwyd i gysylltu â Chyngor Gwynedd i ddwyn hyn i'w sylw.

Safleoedd Bysiau

Adroddodd y Clerc ei fod wedi derbyn galwad gan Swyddog Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn ein hysbysu eu bod wedi derbyn cwyn fod baw dynol mewn lloches bws yn Dolafon. Yn ôl y Swyddog, cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw glanhau llochesau bys. Eglurodd y Clerc nad oedd offer pwrpasol ar gyfer hyn gan y Cyngor Cymuned a byddai oblygiadau Iechyd a Diogelwch yn amlwg. Eglurodd y Swyddog byddai Cyngor Gwynedd yn trefnu i lanhau'r baw ond os byddai hyn yn digwydd yn aml, yna byddai rhaid i Gyngor Gwynedd godi tâl am hyn i'r Cyngor Cymuned. Gofynnwyd i Gyngor Gwynedd lanhau'r lloches bws cyn gynted â phosib oherwydd difrifoldeb y sefyllfa.

Mynegwyd pryder fod anghysondeb rhwng oblygiadau Cyngor Gwynedd i lanhau baw ci oddi ar ein palmentydd neu ffyrdd ac eu bod am godi ffi i lanhau baw dynol. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am eglurhad am y gwahaniaeth.

Penderfynwyd hefyd i ofyn i'r Criw Cymunedol fynd o amgylch i lanhau pob lloches bws oddi fewn ardal y Cyngor Cymuned.

Ceisiadau Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

- Codi estyniad un llawr, Hen Bost, Tan y Coed, Llanrug, LL55 4RW.

- Newid defnydd tir er mwyn ymestyn cwrtil breswyl i gynnwys mynedfa a ffordd gerbydol newydd ynghyd â chodi estyniad i ochr eiddo presennol a modurdy ar wahân i gefn y safle. 2 Tros y Gors, Llanrug.

Cais i adeiladu Bynaglo Gromen ar safle Carreg y Fran, Cwm y Glo - Mynegwyd pryder y gallai'r llwybr cyhoeddus gael ei golli a bod y safle yn cael ei or-ddatblygu

Croesffordd Tan y Coed a Ffordd Crawia

Mynegwyd pryder fod fan wedi ei gadael gyferbyn â chiosg Tan y Coed a char ar Ffordd Crawia.

Penderfynwyd y byddai hyn yn cael ei adrodd i'r heddlu.

Ymddiswyddiad

Derbyniwyd ymddiswyddiad y Cyng. Dylan Lloyd Jones oherwydd pwysau gwaith ac oblygiadau eraill. Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor.

Ceisiadau am Gymorth Ariannol

Penderfynwyd cyfrannu £2100 tuag at gostau Sefydliad Coffa Llanrug

Diweddariad ar y safle We'r Cyngor

Adroddodd y Clerc fod tipyn o waith wedi wneud hyd yma ar greu'r uchod. Roedd eisoes wedi cyfarfod â Cymru.net i drafod ein anghenion ac bydd angen i'r Cyngor benderfynu ar nifer o faterion ar frys.

- Lluniau o'r ardal

- Sut i gysylltu â Chynghorwyr

Penderfynwyd cysylltu â Gareth Roberts o Fenter Fachwen ynglŷn â lluniau i roi ar y wefan. Parthed materion cysylltu â Chynghorwyr penderfynwyd y dylai pob cysylltiad at yr aelodau fynd drwy'r Clerc ac na fydd manylion personol aelodau ar y we.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Llanberis

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis ar nos Fawrth, 17eg o Chwefror 2015.

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Gwilym Evans, Iwan Harding, Bethan Holding (Cadeirydd), Derek Jones, Dafydd Roberts, Helen Sharp, Trystan Thomas. Ward Peris: Iola Owen, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Eurig Druce, Gwenda Roberts.

DATGAN BUDDIANT:

DJ (Y Fynwent)

CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth yr 20fed o Ionawr, 2015 fel rhai cywir.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Adwy Ffordd Haearn:

Mae'r gwaith bron wedi ei gwblhau. Er fod y gwaith wedi ei wneud yn wirfoddol gan SW a RO cytunwyd i gynnig cydnabyddiaeth.

2. Cysgodfan Bws Newydd:

Cafwyd ar ddeall gan y Clerc y byddai modd lleoli y lloches dros y ffordd i'r Feddygfa rhwng y ddau agoriad i'r toiledau a Maes Padarn ond y byddai angen codi lefel y palmant, symud arwyddion, marcio ffordd ag ati cyn meddwl am brynu'r lloches a'i gosod. Byddai'r gost yn ôl swyddog CG tua £2,000 ar ben y gost o brynu a gosod. Penderfynwyd nad oedd hynny yn ymarferol. Cafwyd ar ddeall bod modd gosod y gysgodfan ger yr arhosfan wreiddiol er nad oedd un o'r cymdogion yn hapus, cyn belled â'i bod yn ddealladwy mai'r Cyngor Cymuned ac nid Cyngor Gwynedd (CG) oedd yn gyfrifol amdani ac am ei gosod.

Penderfynwyd yn unfrydol i fwrw 'mlaen i archebu'r lloches a'i gosod. Cynnig ac eilio: DJ/EB. Cytunwyd hefyd i symud y bin sbwriel at ymyl y lloches.

3. Parc Bach:

Roedd y Clerc wedi holi RJ a fyddai'n taclesu'r safle.

4. A4086:

Mae'r gwaith o osod palmant newydd ar ochr ogleddol y ffordd yn symud yn ei flaen yn foddhaol. Roedd nifer o draeniau mawr newydd hefyd yn cael eu gosod. Croesawyd yr adroddiad.

5. Cysgodfeydd Bws Dôl y Goeden, Llanberis:

Wedi cryn fynd a dod rhwng CG ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol (APCE) roedd y Clerc wedi cael addewid y byddai CG yn gofalu am drwsio'r gysgodfan a hynny yn fuan.

6. Llythyrau:

Derbyniwyd llythyrau oddi wrth CG yn cydnabod y gwrthwynebiad i gau ffyrdd adeg digwyddiadau antur/chwaraeon ac hefyd i groesawu'r bwriad i osod llinellau gwahardd parcio ym Mhentre Castell.

MATERION ERAILL:

1. Mainc Lechen Dôl y Goeden:

Ar ôl darganfod fod eistedd un o'r meinciau llechi wedi dod yn rhydd cytunodd EB a'i frawd i'w thrwsio a'i rhoi yn ôl wrth ei gilydd. Roedd peth brys rhag ofn i'r lechen gael ei difrodi ymhellach. Penderfynwyd cydnabod y gwaith er i'r brodyr ddweud nad oeddynt am gydnabyddiaeth ariannol. Diolchwyd iddynt am fod mor barod eu cymwynas bob amser.

2. Baw Anifeiliaid:

Cafwyd adroddiad gan HS bod mwy o faw ci nag erioed yn Llanberis. Dywedwyd ei fod wedi wedi cynyddu a dod yn broblem fawr, ac yn ôl tystiolaeth gan eraill mae'n ymddangos fod baw ci yn gyffredin iawn bron ymhobman. Mae'n broblem ar balmentydd, ar lecynnau glas ac mae pryder am iechyd plant yn arbennig pan fo cŵn yn baeddu tir glas a caeau chwarae. Nodwyd fod tir ger y Llyfrgell wedi ei lygru'n ddrwg, felly y ffordd at Limbo, ffordd a ddefnyddir gan ymwelwyr ar droed i'r Wyddfa.

Addawodd y Clerc holi pam na ddaeth y biniau cŵn ychwanegol a archebwyd oddi wrth CG. (Roedd y Clerc yn gwybod fod un swyddog wedi newid ei swydd, ond prin bod hynny yn rheswm digonol.) Soniwyd fel yr oedd amryw yn defnyddio gwefan gymdeithasol i fynegi eu cwyn a'u dicter am y budreddi, ac roedd na sôn am enwi pobl yn y gobaith o godi cywilydd arnyn nhw os oedden nhw yn cael eu gweld yn gadael i'w cŵn faeddu a pheidio a'i glirio.

Holwyd a oes gan CG Warden Cŵn, ac os oes, pa mor aml y daw i'r ardal.

Holwyd hefyd a ddirwywyd unrhyw un am droseddu yn y modd yma a

gofynnwyd i'r Clerc holi am fagiau baw ci i'w dosbarthu eto.

3. Maes Carafannau Glyn Rhonwy:

Soniwyd fel yr oedd y gwaith o ddatblygu'r safle yn mynd yn ei flaen yn gyflym a chodwyd cwestiwn sut y cafodd y problemau a wynebai'r datblygwr blaenorol eu datrys mor sydyn.

4. Enwau:

Roedd y Clerc wedi gweld copi o ebost a anfonwyd gan BD i drefnwyr digwyddiad go fawr yn y dyfodol (Snowdon Xtreme 3 Challenge 2015) a oedd yn atgoffa'r trefnwyr o enwau priodol ffyrdd, strydoedd a mannau eraill. Yn y llythyr gwreiddiol roedd na gyfeirio at Y Glyn fel Pottery Lane (dyna un newydd at Honey Pot Lane) a Bwlch Maesgwm fel Telegraph Pass. Dywedodd BD yn reit blaen yn ei ateb nad oedd llefydd hynny yn bodoli a'i fod yn mawr hyderu y bydd enwau priodol yn cael eu defnyddio o hyn allan. Wn i ddim a awgrymodd BD fod y sillafu Saesneg cyn waethed a'r ymdrech i enwi llefydd yn Llanberis. Sut mae sillafu 'eithafol' yn Saesneg?

5. Cae UEFA:

Cafwyd ar ddeall fod Evan Thomas yn ymddeol fel Gofalwr Y Ganolfan. Bydd angen holi a fydd am barhau i ofalu am y cae pêl-droed pob tywydd.

GOHEBIAETH:

1. Aled Roberts AC:

Llythyr yn dilyn un cynharach yn egluro y bu peth amwysedd ynglŷn ag arolwg Llywodraeth Cymru o ffyrdd y wlad. Bydd yn cysylltu eto gyda mwy o fanylion.

2. CG – Gorchymyn Rheoli Trafnidiaeth Dros Dro – A4086:

Daeth y Gorchymyn i rym. Cyfyngiad o 30mya ar hyd y ffordd o Gallt y Glyn i Graig yr Undeb, tua 1,700 metr. O'r 6ed o Chwefror ac fe allai fod mewn grym am 6 mis.

3. Clerc Cyngor Caernarfon:

Gwahoddiad i anfon cynrychiolwr ar Orymdaith Gŵyl Ddewi yn y dref ar ddydd Sul Mawrth y 1af. Neb yn dangos diddordeb.

4. Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor:

Apêl am aelodau newydd i'r Fforwm newydd sydd i'w sefydlu yn lle'r hen un. Mae nhw fel arfer yn para am dair blynedd ac mae rhyddid i unrhyw un wneud cais i fod yn aelod.

CYNLLUNIO:

1. Cyngor Gwynedd:

• C15/0115/15/LL – Estyniad un llawr i ochr yr eiddo – Llwyn Padarn, Ffordd yr Eglwys, Llanberis - dim gwrthwynebiad.

• C15/0119/15/LL – gosod arwyddion newydd gan gynnwys arwyddion wedi eu goleuo - Siop Spar, Stryd Fawr, Llanberis yn gwrthwynebu goleuo'r arwydd, y nifer a fwriedir ychwanegu a'r ffaith eu bod yn llawer rhy fawr ac ymwithiol ar adeilad hardd y dylid ei barchu yn hytrach na'i ddifetha. Gwrthwynebu hefyd yr arwydd mawr wedi ei oleuo.

• Glyn Rhonwy:

Hefyd derbyniwyd Adroddiad Trosolwg ar yr Ymgynghoriad i Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy oddi wrth Snowdonia Pumped Hydro. Gan fod y newid yn dyblu gallu cynhyrchu'r Orsaf i 99.9MWe nid CG fel awdurdod cynllunio lleol fydd yn ei ystyried. Bydd yn mynd i'r Arolygaeth Gynllunio ac felly yn dod o dan adain Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Infrastructure Planning) ar lefel gwledydd Prydain. Cais yw hwn felly am Orchymyn Caniatâd Datblygu o dan Adran 42 Deddf Cynllunio 2008. Mae yna hyd y 13eg o Fawrth y ymateb.

Gan fod caniatâd wedi ei roi ar gyfer cynllun hynod debyg a fyddai'n cynhyrchu hyd at ychydig o dan 50MWe mae'n bur debyg y caiff hwn ei ganiatau er y bydd maint y llyn a'r argae uchaf yn bur ymwithiol. Dydi'r newidiadau ddim yn sylweddol iawn, ond unwaith eto does dim sôn sut y bydd y trydan yn cael ei ddwyn oddi yma i gysylltu â'r Grid Cenedlaethol ym Mhentir. Mae hynny yn dal yn bryder, does ond gobeithio fod cynsail wedi ei osod wrth i drydan Gorsaf Dinorwig gael ei drosglwyddo o dan ddaear.

LLWYBRAU A'R FYNWENT

a) Y Fynwent:

1. Oherwydd fod carreg 2' 9" wedi dod i'r Fynwent yn gymharol ddiweddar penderfynwyd caniatâu carreg yr un uchder ar gyfer beddrod arall. Penderfynwyd ychwanegu at y rheolau a nodi "mai cerrig coffa o liw tywyll yn unig a ganiateir yn y Fynwent" o hyn ymlaen. Roedd yn benderfyniad unfrydol.

2. Cafwyd enw a rhif ffôn person a fyddai o bosib yn fodlon difa tyrchod yn y Fynwent.

b) Meinciau:

Cafwyd placiau Cymraeg i'w rhoi ar y ddwy fainc a gyflwynwyd er cof am bobl ieuanc yr ardal a gollwyd. Mae un yn y Fynwent a'r llall yng Nghae Chwarae Min y Llyn.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y 3ydd o Fawrth 2015.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Parch. Idris Thomas.

Cofnodion cyfarfod y 3ydd Chwefror 2015.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Goleuadau Hafod Oleu - Cyflwynwyd llythyr e-byst gan CCG, yn cynnig talu 50% o'r gost i osod golau stryd ychwanegol yng nghefn Hafod Oleu. Penderfynwyd derbyn y cynnig, ac i'r cler c yr y llythyr yn archebu y gwaith i Gyngor Gwynedd gan esbonio y sefyllfa ac yn gyrru copi i CCG.

Baw Cŵn - Yn dilyn cwyno am broblem baw cŵn ym Mhenisarwaun, derbyniwyd llythyr yn dweud bod warden gorfodaeth Cyngor Gwynedd yn cynnal archwiliadau i'r broblem. Eglurodd Hefin Williams, os oes unrhyw un yn gweld cŵn yn baeddu, dylid cymeryd disgrifiad da o'r perchennog a'r ci, a chysylltu â warden y Cyngor yn syth, a gadael i'r swyddog gysylltu â'r perchennog.

Polisi Iaith - Cadarnhawyd mai Cymraeg yw'r iaith sydd yn weithredol yn y Cyngor ac ein bod gyda pholisi yn cadarnhau hynny.

Quarry Battery – Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau beth a phwy fuasai'n elwa o'r cynllun yn Glyn Rhonwy.

Blychau Postio – Cyfeiriwyd at lythyr a dderbyniwyd gan y Post Brenhinol yn cyfeirio bod Blwch postio Rhes Arthur, Penis'arwaun, bellach yn gyflawn weithredol, ond ni fydd blwch arall yn cael ei osod yn Nhan Gaer.

Gohebiaethau a materion eraill

Clwb Ffermwyr Ifanc Eryri - Derbyniwyd Lythyr gan C.Ff. I Eryri, yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at eu mudiad yn Eryri. Penderfynwyd, yn ôl rheolau y Cyngor, ateb y llythyr yn gofyn iddynt yrru eu cais gyda Mantolen Ariannol erbyn diwedd Medi.

Cynllunio – Rhydau, (ail gyflwyniad) Penderfynwyd anfon llythyru yn cadarnhau fod penderfyniad y Cyngor Cymuned yn sefyll yn union run fath.

Cynllun Datblygu Tai – Cyfarfod ychwanegol i drafod y cynllun.

Llyfrgell Deiniolen – Cawsom gadarnhad mai Siôn Shakespear Associates ydi'r Ymgynghorydd. Gofynnodd Siôn Jones, tybed Beth ydi cost hyn? Bwriad Elfed Wyn Williams yw cael 250 o enwau ar y ddeiseb a'i chyflwyno i'r Cynghorydd Ioan Thomas. Ychwanegodd Idris Thomas fod cadw y llyfrgell yn Neiniolen ar agor yn mynd i fod yn ymgyrch fawr i ni. Derbyniwyd costau rhedeg y llyfrgell a fydd yn cael eu trafod yn y cyfarfod ym Mis Ebrill. Mynegwyd y byddai llythyrau yn rhoi barn gan ddefnyddwyr y llyfrgell i'w cyflwyno iddo yn dda o beth.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:-

Bryn Teg, Brynrefail – Estyniad deulawr newydd i flaen yr eiddo.

Brynteg, Fachwen – Estyniad llawr cyntaf i gefn yr eiddo.

Coed Rhydau, Llanddeiniolen – Ail gyflwyniad o gais a wrthodwyd o'r blaen

Felin Uchaf, Pentir - Newid defnydd swyddfa i lety gwyliau

Tŷ Capel Cysegr, Bethel – Trosi ag ymestyn adeilad allanol presennol i ddefnydd fel anecs atodol

Greenwood Forest Park – Adeiladu sleid ddŵr, gosod paneli pv gyda chyfarpar cysylltiol.

Her Gwynedd

Dywedodd Hefin Williams fod pryder mawr ynglŷn â dyfodol ein cyllid. Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn llai o arian o Lundain, ac mae cost rhedeg y Sir yn cynyddu, ac ar yr un pryd rydym ninnau yn cael llai o arian. Mae Cyngor Gwynedd yn wynebu 50 miliwn o dwll yn eu cyllideb dros dair blynedd. Awgrymwyd y byddai yn ddoeth darparu ar ei gyfer.

Mynegodd Idris Thomas bod angen mwy o bwerau gan Gyngor Cymuned, ac os y buasai pwerau, efallai buasai arian yn dod gyda'r pwerau.

Cytunwyd bod effaith gweld toriadau yn dechrau brathu.

O gwmpas y Bwrdd

Geraint Elis – Rhannodd lythyr gan Gwyndaf Hughes yn cyfeirio at YnNi Padarn Peris. Cynllun cymunedol yn Nyffryn Peris a'r potensial sydd yna i greu ffynhonnell o arian datblygu Economi a chymunedau ein hardal.

Hefin Williams – Eglurwyd fod yna gofeb Rhyfel Byd Cyntaf wedi ei gwneud o bren yn Ysgol Rhiwlas, ac y bydd cais yn cael ei gyflwyno ym mis Hydref i adnewyddu y gofeb.

Rhian Evans – Mynegodd bod angen arwydd 'RHIWLAS' gwell ar priffordd Pentir, a bod angen arwydd gwell am yr ysgol yn Rhiwlas hefyd. Llythyr i Wynedd.

Phyllis Ellis – Dywedodd bod angen arwydd Penisarwaun gwell o ochor Llanrug.

Rachel Williams – Cyfeiriodd at y golwg ar y lôn a'r lle cyn gwair wrth droi i mewn i fynedfa Maes Gwylfa o ochor Ffordd Deiniol/Cwt Band. Llythyr i Wynedd.



Bosch Service

Car Service










www.a-v-w.co.uk

01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD

SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO

ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN

CEIR, CAMPERS A FANIAU



BOSCH Car Service



ARVONIA



- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvoniac.co.uk



Dathlu Gŵyl Ddewi.

Yn ôl yr arfer cynhaliwyd gorymdaith ar fore Sul i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Nghaernarfon, gyda neidr hir o wahanol gymdeithasau,

ysgolion ac unigolion yn cerdded drwy'r dref i'r Maes. Yno, cynhaliwyd gwasanaeth byr, a phlant y dref a'r pentrefi o amgylch yn cymryd rhan.



Dyma blant Ysgol Sul Capel y Rhos, Llanrug yn rhan o'r dathlu.

LLANBERIS Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

Cyfeillion Plas Pengwaith Enillydd y Bel Bonws am fis Chwefror oedd Julie Baylis.

Diolch Dymuna Helen, Dafydd, Tomos a Huw, 6 Rhes Efrog, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth ddiweddar o golli John Richards, Tad a Thaid annwyl. Diolch hefyd am yr holl roddion (sydd yn dal i lifo i mewn) er cof amdano i gronfa'r Gymdeithas Alzheimers.

Diolch Dymuna Iola, Alwyn, Ann a theulu'r diweddar Dennis Evans, Stryd Fawr, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth annisgwyl a sydyn. Diolch arbennig i Heulwen ac Evelyn am eu cymorth drwy'r amser dwys.

Diolch i Aneuryn am y lluniaeth yn Dolbadarn. Diolch i'r Parchedig Ddr H.J. Hughes am ei wasanaeth teimladwy ac i Mr Munro wrth yr organ.

Yn olaf, diolch i Dylan a Meinir Griffith am eu trefniadau trylwyr a'u gofal ohonom trwy'r amser trist.

Derbyniwyd swm anrhydeddus iawn at Uned Damweiniau Ysbyty Gwynedd, ac yr oeddynt yn ddiolchgar iawn ohono. Diolch o galon i bawb

Llongyfarchiadau i Caryl a Mike, 17 Stryd yr Wyddfa, sydd wedi dyweddio yn ddiweddar.

Y Gymdeithas Undebol Cafwyd noson ardderchog yng Ngwesty Dolbadarn ar y 10fed o Fawrth. Diolch unwaith eto i Aneuryn a'r staff am y cinio blasus. Y gwestion oedd Mr a Mrs Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Brynrefail. Buom o amgylch y byd yn eu cwmni, mae o a'i briod wedi trafaelio llawer. Cawsom fraslun o'r teithiau trwy'r lluniau godidog oedd wedi eu tynnu o'r cyfandiroedd y buont ynddynt, a chael adnabod y bobl a'u ffordd o fyw. Terfynodd y sgwrs trwy ddangos lluniau arbennig o'n gwlad ni ein hunain, sef llwybr arfordir Ynys Môn, llwybr maent wedi gorffen ei gerdded yn ddiweddar.

Mr Colin Jones ddywedodd y Gras bwyd. Llywyddwyd y noson gan Dilys Mai Roberts a rhoddwyd y diolchiadau gan Mr Robin Jones. Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Ifanwy Jones gan Mrs Anne Parry.

Bydd Tymor Y Gymdeithas yn dod i ben mis nesaf gydag ymweliad â Gwinllan Pant Du, Penygroes, ar 14eg o Ebrill, pryd y cawn hanes y winllan a blasu peth o'r cynnyrch, Pris fydd £5 y pen. Bydd modd hefyd i brynu paned a rhywbeth i'w fwyta. Cewch fanylion amseroedd cychwyn y bws yn fuan. Ymholiadau ac enwau i Dilys Mai ar 871758, diolch.

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



**Gwasanaeth Gwres
a Plymio**

safe

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

YSGOL DOLBADARN, LLANBERIS



Cystadleuaeth Athletau

Mae'n rhaid fod yr holl rasys mynydd ac ar y llyn, sy'n cael eu cynnal yn ardal Llanberis, wedi cael effaith galonogol ar y disgyblion lleol. Braff yw cael canmol criw o athletwyr Ysgol Dolbadarn a fu'n llwyddiannus yng nghystadleuaeth athletau dan do dalgylch Gwynedd yn ddiweddar.

Roedd gofyn i'r disgyblion neidio, taflu gwaywffon, taflu pêl, naid ruther a'r naid hir, ynghyd â nifer o rasys rhedeg cyfnewid, i gyd o dan do Canolfan Hamdden Arfon.

Rowndiau lleol ysgolion Arfon oedd y tro cyntaf i'r ysgol gystadlu a daeth y disgyblion yn ail, oedd yn golygu ein bod yn gwneud cynnydd i rowndiau'r Sir.

Wedi cystadlu brwd yn erbyn ysgolion ledled Bangor, Pen Llŷn a'r Bala, cawsom y newyddion gwych fod yr ysgol wedi cael 3ydd trwy Wynedd gyfan, sy'n bluen amlwg yn het y disgyblion. Da iawn chi a daliwch ati.



Plannu Coed Afalau.



Disgyblion Ysgol Brynrefail yn plannu coed afalau ar dir Plas Pengwaith. Y garddwyr yw Kieran Davies, Llion Griffith, Jordan Jones, Meirion Jones, Llion Roberts, Shaun Roberts, Gwilym Thomas.

Diwrnod Y Llyfr 2015

Dyma lun o ddisgyblion Blwyddyn 3+4 wedi gwisgo fel cymeriadau o lyfr ar gyfer y dathliadau eleni. Bu'r plant yn sôn am eu hoff lyfrau yn ystod y dydd a bu iddynt greu cerddi ar gyfer 'Y Gerdd Fawr' ar y testun Gwnewch y Pethau Bychain.

Blwyddyn Ryngwladol Pridd 2015

Fel rhan o ddathliadau Blwyddyn Ryngwladol Pridd 2015, mae Parc Cenedlaethol Eryri, ynghyd â Phrifysgol Bangor, wedi plannu 64 o goed mewn 64 o ysgolion yng nghyffiniau'r Parc.

Yn ôl Helen Pye o'r Parc, "Mae'n gyfle i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd pridd drwy arsylwi ar y goeden yn tyfu. Bydd y goeden Ceiriosen yr Adar yn blodeuo yn mis Ebrill sydd yna yn denu pryfaid a gwenyn. Pan fydd y blodyn wedi'i beillio cynhyrchir ceirios sur sydd yn fwyd da iawn i adar. Yn yr Hydref bydd y dail yn disgyn ac yn ffynhonnell bwyd i bryfaid genwair a thrychfilod."

Mentrodd 4 o gynrychiolwyr yr Ysgol Werdd a'r Cyngor Ysgol allan i'r gwynt a'r glaw i blannu'r goeden. Diolch i Rhys Wheldon a Helen Pye o'r Parc Cenedlaethol, i Paula Roberts o Brifysgol Bangor ac hefyd disgyblion yr Ysgol am eu gwaith caled! Jack Booth, Mali Jones, Guto Selwyn, a Ffion Harland.



ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch ein
hysbysebwy**

Chwaraeon



Mae'r tymor wedi dechrau o ddifrif. Moelyci wedi bod a Moel Tryfan wedi ei chynnal ar fore dychrynlyd o wyntog, niwlog a glawog; a doedd y rhedwyr lleol amlwg ddim yno! Ganol fis Mawrth cynhaliwyd y ras gyntaf o fewn bro'r "Eco", sef Ras Bwlch Maesgwm, a hogyn lleol – Gareth Wyn Hughes o Benisarwaun, enillodd, gan chwalu'r record o dros funud. Daeth Sion Davies o Ddeiniolen yn ail. Ddiwedd mis Mawrth bydd y clociau wedi eu troi ac y mae hynny'n arwydd sicr fod cyfres Rasys Nos Fawrth yn cychwyn. Eleni eto

maent yn cael eu noddi gan Gwmni Joe Brown, Llanberis, a'r rasys plant gan Caernarfon Tyres. Bydd y ras gyntaf yn cael ei chynnal o'r Fron, ac yn dringo Moel Tryfan. Bydd y ras hon yn cychwyn am 7.00, a rhaid cofrestru yn Ysgol y Fron chwarter awr cyn cychwyn y ras. £1.50 yw'r gost.

Yn ystod Ebrill bydd tair ras arall yn y gyfres: 7fed o faes parcio Rhaeadr Aber; 14eg o Ddwygyfylchi i fyny'r Foel Lus; 28ain o Ysgol y Fron i fyny Mynydd Mawr. Bydd y rasys hyn yn cychwyn am 7.15.



CLWB BOWLIO DAN-DO BETHEL.

Sion Jones, yr hyfforddwr, yn egluro'r gem i dair o ferched y pentref.

CAIS AM NAWDD.

Ddeufis yn ôl rhoddodd yr "Eco" sylw i lwyddiant y dringwr ifanc o Lanrug – Kierran Forrest. Mae wedi ei ddewis yn rhan o garfan Prydain i gystadlu mewn pencampwriaethau Ewrop a'r Byd. Ond yn sgil hynny, mae cost. Amcangyfrifir y bydd y costau y bydd yn rhaid eu hwynebu yn cyrraedd £6,000. Byddai'r teulu yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw nawdd gan gwmnïau neu unigolion lleol tuag at wireddu breuddwyd a llwyddiant y dringwr ifanc.

MWY O GLOD

Rhaid yw dilyn i fyny ar lwyddiant Ifan Emlyn o Lanrug â nodwyd yn y golofn y mis diwethaf. Nodwyd y ffaith iddo ennill capiau i dimau Ysgolion a Cholegau Cymru. Yn ystod y mis Ifan sgoriodd y gôl i Gymru er iddynt golli 2-1 ar Nantporth yn erbyn yr Alban. Roedd yn gêm i'w mwynhau, a chafodd Ifan gêm dda greadigol yng nghanol cae Cymru. Roedd nain a taid yn y dorf wedi eu plesio beth bynnag! Yna y wefr o arwain tîm Colegau ei wlad mewn twrnament draw yn Sbaen. Ennill un, colli un ag un gem gyfartal ddaeth i ran y Cymru. Dylsai'r capten fod yn fodlon dybiwn i.



ARI FYNY...

Bu’r plant a’r ieuenctid canlynol o fro’r “Eco” yn cystadlu yn Rownd Derfynol Cystadleuaeth Ddringo Ieuenctid Cymru ganol Mawrth. Roedd y papur wedi mynd i’r Wasg cyn i ni dderbyn y canlyniadau, ond mae gobaith am lwyddiant. Dyma’r nifer uchaf o unrhyw ardal yng Nghymru yn cystadlu; tua 10% o’r holl gystadleuwyr. Mae’n argoeli’n dda am lwyddiant dringwyr ifanc yr ardal hon i’r dyfodol.

Sophie Richards, 16 oed o’r Waunfawr
Zoe Wood, 15 oed o Ddinorwig
Ruby Wood, 11 oed o Ddinorwig

MORAGOS

Mae gallu Ysgol Brynrefail fel Ysgol sy’n datblygu rygbi yn un o nodweddion diweddar bro’r Eco, yn enwedig gyda’r cysylltiad gyda chlwb Caernarfon. Yn ddiweddar daeth dim llai nag 8 o ddisgyblion a chyn-ddisgyblion yr Ysgol o fewn 80 munud o gael chwarae ar faes Stadiwm y Mileniwm.

Roeddent yn chwarae i’r ‘Cofis’ ac yn cario baner y gogledd yn erbyn tîm profiadol Pontypŵl yn rownd gyn-derfynol cwpan Cymru, draw yn Llanidloes. Wedi trechu cewri Pontardulais yn y rownd flaenorol roedd cryn edrych ymlaen ond ni ddaeth llwyddiant i dîm ieuanc Caernarfon. Bydd rhai ohonynt yn ol y tymor nesaf i fynd un cam ymhellach a gwireddu breuddwyd. Yr wyth siomedig oedd Guto Pierce, Rhodri Jones, Armando Morgan (Bethel), Dafydd Lloyd (Waunfawr), Mathew Roberts, Sion Morgan (Llanrug), Gwion Phillips (Llanberis) a Liam Hughes(Cwm y Glo).

Mae 4 o fechgyn dan 16 yr ysgol hefyd yn ymgiprys am Gwpan Eryri. Os llwyddir i drechu Bae Colwyn, yna byddant yn herio Nant Conwy neu Bwllheli yn y rownd derfynol. Pob lwc i Gwion Lowe (Waunfawr), Ancel Davison a Nathan Pikeroft (Llanberis), a Gethin Huws Jones (Llanrug).

Caitlin Forrest, 10 oed o Lanrug
Maisie Guilhem, 10 oed o Lanrug
Melody Haston-Wilson, 10 oed o Lanberis
Leo Haston-Wilson, 10 oed o Lanberis
Mia Eade, 7 oed o Lanberis
Elin Williams, 8 oed , o Lanberis

Roedd Kierran Forrest, sydd hefyd yn ddringwr profiadol, yn methu bod yn bresennol oherwydd ei fod yn cynrychioli Tim Ysgolion Cymru mewn cystadleuaeth rhedeg Traws-gwlad yn Nulyn ar yr un penwythnos.

MIS GWELL I’R TIMAU LLEOL

Dyna’r ffaith i’n timau lleol. Mis yn ôl roeddwn yn poeni am sefyllfa Llanberis ar waelodion y tabl. Ers colli draw ym Mhenrhyndeudraeth yn Nhlws Cymru cafwyd rhediad arbennig yn y gynghrair. Gan fod y mwyafrif o gemau’r mis yn erbyn timau o’u cwmpas yn y gwaelodion, roedd pob buddugoliaeth yn cynyddu’r pwysau ar y timau eraill. Er y rhediad dim ond 5 pwynt sy’n gwahanu y chwe tim isaf yn y gynghrair, a dim ond 5 pwynt rhwng Llanberis a’r tim sydd yn bedwerydd. Cynghrair glos iawn eleni.

Mae Llanrug yn cynnal eu rhediad arbennig ac yn drydydd cyfforddus yn y gynghrair.

Mae ogle’r brasso yn dal o gwmpas y clwb. Ar Fawrth 24 byddent wedi cyfarfod yr hen elyn Treffynnon yn ffeinal Cwpan Cookson draw yng Nghonwy. Siawns bod cyfle Llanrug wedi cyrraedd bellach. Collodd Treffynnon am y tro cyntaf draws yn Glantraeth â drechwyd gan Lanrug yng Nghwpan Mawddach. Yn y gwpan honno mae Llanrug yn wynebu Llanerchymedd. Buasai’n braf cyrraedd y rownd derfynol gyda’r gêm honno i’w chwarae ar Nantporth ar bnawn Sadwrn. Tipyn o achlysur.

Dal i gadw’i safle yn rhan uchaf y tabl mae’r Waunfawr, er bod timau o’u cwmpas â gemau mewn llaw. Rydym yn dal i ddisgwyl am eu gêm gwpan bwysig a chyfle da ganddynt yng Nghwpan Ganolraddol Gogledd Cymru. Mae ysbryd y tîm yma yn haeddu llwyddiant. Nid hawdd yw chwarae pob gêm i ‘ffwrdd’ ond buasai cipio’r tlws yn sbardun yn natblygiad y clwb.

Llongyfarchiadau i dim Celtiaid Penbont ar gyrraedd rownd derfynol Cwpan Cynghrair y Sul Gogledd Cymru. Byddant yn wynebu’r deiliaid Mally FC o ardal Llandudno.



Cefnogwch ein
hysbysebwy

Chwaraeon

I Rhun Daeth Gwefr Y Funud



Rygbi sy'n cael lle amlwg yn y golofn chwaraeon y mis yma. A pha well rheswm na llongyfarch Rhun Meirion Williams ar ennill capiau i dim oedran dan 18 Cymru. Dyma'r cap rygbi llawn cyntaf i ddisgybl o Ysgol Brynrefail. Gyda balchder dwi'n siwr bydd llun o Rhun yn ymuno â rhes y rhai o wahanol gampau a wisgodd y crys coch yng nghyntedd yr Ysgol.

Ers yn 5 oed bu Rhun yn ymwneud â'r bêl hirgron, yn aelod o sawl carfan ieuenctid yng Nghlwb Rygbi Caernarfon. Rwyn siwr ei fod yn ddiolchgar i sawl un sy'n gwirfoddoli i roi eu hamser i hyfforddi a chefnogi'r ieuenctid. Bydd gwên o foddhad ar wyneb rhai fel Geraint Parry Hughes, Ieuan Jones, Phil Holland ac Andrew Williams (swyddog cyswllt Ysgol Brynrefail yn y cynllun 5/60).



Roedd Rhun yn dipyn o bêl-droediwr hefyd ac ar lyfrau Oldham Athletic. Yn 14 oed rhaid oedd gwneud dewis. I ddatblygu'r bêl-droed buasai'n rhaid symud i ardal Oldham a chael ei addysg yno. Dewis anodd, a throdd at y bêl-hirgron.

Ar wahan i dimau'r Ysgol a Chaernarfon roedd Rhun hefyd yn aelod o garfan Coleg Llandrillo sy'n chwarae yng Nghynghrair Cymru i Ysgolion a Cholegau. Efallai i chwi weld rhai o'r gemau ar S4C.

Fel llawer o'i gyfoedion mae Rhun wedi elwa gyda datblygiad clwb RGC 1404 yma yn y gogledd. Mae'r tim hyn yn hynod o lwyddianus ar hyn o bryd. Hefyd mae Academi gref gyda hyfforddwyr profiadol fel Chris Horsman , Phil Davies a Josh Leach yn rhoddi arweiniad gadarnhaol i'r ieuenctid. Er ei oed, mae Rhun yn aelod o'r garfan hyn ond fel maswr fel arfer y gwelir ef.

Yn y garfan genedlaethol, fel cefnwr mae Rhun yn chwarae. Daeth y cap cyntaf draw yn ardal Paris yn erbyn tim corfforol Ffrainc. Les Bleu a orfu. Yna'r ail gap ar faes enwog Sain Helen yn Abertawe yn erbyn yr hen elyn Lloegr. A dyna wefr, o ennill yn erbyn yr hen elyn o 23-15, a hynny o flaen camerau S4C. Gyda'r tim hyn ar tim dan 20 wedi trechu Iwerddon roedd hon yn dipyn o benwythnos i'r crysau coch. Er grym corfforol y Saeson, y ddawn gynhenid yn y crysau coch gariodd y dydd.

Ar wahan i Rhun gallwn 'hawlio' darn bach o Billy McBride, mab Robin, oedd yn chwarae maswr i Gymru ac â sgoriodd gais allweddol. Oedd roedd nain Diana o Frynrefail wedi teithio i lawr ar y tren i'w gefnogi. A hithau'n Sul y Fam roedd rhieni Rhun draw ar Sain Helen i'w weld yn cael ei gyflwyno gyda'r capan coch. Â fu gwell anrheg i fam, tybed. Hefyd mae'n ffordd o gydnabod ymdrech llw o rieni sy'n yrrwyr tacsis i amryw gemau, treialon a sesiynnau hyfforddi. Nid pawb sydd yn llwyddo ond i'r rhai sydd, rwyn siwr fod gwên rhiant – ac ambell ddeigryn- yn dweud cyfrolau.

Gyda llaw mae Rhun yn un o bedwar o hogiau, ac mae'r tri arall yn gysylltiedig â thim Caernarfon hefyd.

Yr her i Rhun rwan ydyw cadw ei le yn y garfan gan fod y gwobrau yn fawr. I ddod mae twrnament oedranol draw yn Ffrainc ac yna taith i Dde Affrica. Yna ar gyfer tymor nesaf gobeithio plesio'r dewiswyr a symud ymlaen i garfan dan 20 Cymru. Mae'r gwobrau'n fawr mewn camp gystadleuol. Dymunwn yn dda i Rhun.